
APPENDIX 2

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region



# Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 (Wedi ei Archwilio)

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20**

**Cwmpas Cyfrifoldeb**

1. Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) yn rhaglen unigryw o weithio cydweithredol i alluogi newid economaidd, cysyllted digidol gwell, sgiliau a chyfleoedd addysg gwell, ac adfywio ledled y rhanbarth. Mae'r Fargen Ddinas yn dod i gyfanswm o £1.229 biliwn ac mae'n cynnwys £734 miliwn a ddyrannwyd i Fetro De Cymru, sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru ac felly mae y tu allan i gwmpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

2. Mae’r balans cyllid yn ymwneud â’r Gronfa Buddsoddi Ehangach o £495 miliwn a ariennir o Grant Trysorlys EM o £375 miliwn (a ddarperir dros gyfnod o 20 mlynedd) a chyfraniadau cyfalaf Llywodraeth Leol o £120 miliwn.

3. Goruchwylir BDdPRC gan Gydbwyllgor, a sefydlwyd ar 1 Mawrth 2017 ac sy’n cynnwys un aelod etholedig o bob un o’r cynghorau canlynol: Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen a Bro Morgannwg. Ers ei sefydlu, cadeiriwyd y Cydbwyllgor gan y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf, ac mae 2019/20 yn cynrychioli trydedd flwyddyn lawn gweithrediad y pwyllgor.

4. Mae’r Cydbwyllgor yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir busnes BDdPRC yn unol â’r gyfraith a safonau priodol. Mae’n goruchwylio Cronfa Fuddsoddi Ehangach y Fargen Ddinesig o £495 miliwn gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni ei rôl, mae Cydbwyllgor Bargen Ddinesig P-RC yn gyfrifol am roi ar waith drefniadau priodol er mwyn llywodraethu ei faterion.

5. Mae’r datgeliad llywodraethu canlynol yn asesiad yn unol ag egwyddorion y fframwaith ‘Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol’ a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Mae’r datgeliad hwn yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014, fel y’i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (Diwygio) 2018.

**Diben y Fframwaith Llywodraethu, Cefndir a Datblygiadau**

6. Mae llywodraethu’r BDdPRC yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a’r gwerthoedd sydd ar waith i gyflawni’r canlyniadau a fwriedir fel y'u hadolygwyd trwy gymhwyso Fframwaith Llywodraethu CIPFA/SOLACE.

<u>Cefndir</u>

7. Fel y nodwyd uchod, mae 2019-20 yn cynrychioli trydedd flwyddyn lawn BDdPRC ac felly, mae'r trefniadau llywodraethu bellach yn dechrau ymsefydlu ac aeddfedu.

8. Mae Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig wedi gwneud y datganiad canlynol er mwyn darparu'r cyd-destun priodol i'r gwaith a gwblhawyd fel rhan o DLlB 2019/20:

*"Daw'r DLlB ar adeg pan fo P-RC ar bwynt gwyrdroi allweddol. Mae'r tair blynedd lawn gyntaf wedi'u treulio yn y modd 'cychwynnol', tra bod y rhaglen newydd yn ymsefydlu a phrosesau, fframweithiau a phrotocolau yn cael eu sefydlu a'u dysgu. Mae hyn wedi cynnwys ymdrech enfawr, ac mae sefydlu rhaglen, tîm, fframwaith llywodraethu a phartneriaeth yn ogystal â threfniadau cymorth a gweithrediad 10 ALl fel un Fargen Ddinesig golegol wedi bod yn gyflawniad sylweddol. Wedi'i alinio â hyn roedd ysgogi'r rhaglen a chyflawni yn erbyn y diben craidd: mae'r tri tharged yn nodi ar gyfer P-RC: 25,000 o swyddi, trosoledd sector preifat gwerth £4bn a thwf GYC o 5%. Mae hyn wedi gofyn yn ddiweddar am ddatblygu sylfaen dystiolaeth a mewnwelediad economaidd a pholisi allweddol; y busnes a'r arweinyddiaeth wleidyddol sy'n ymwneud â Chynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd a datblygu a gweithredu Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY). Wrth wneud hynny, sefydlwyd Panel Buddsoddi ynghyd â llu o welliannau llywodraethu ategol – fel y Grŵp Prif Swyddog Gweithredol sydd bellach yn atebol fel bwrdd y rhaglen.*

*Wrth weithredu'r Fframwaith Buddsoddi a threfniadau newydd mwy cadarn i werthuso cynigion, rydym yn dysgu drwy'r amser. Y tu hwnt i lunio ein dull o ddelio â buddsoddiadau, mae'r FfBY yn gyson yn alinio ac yn gwella strwythurau llywodraethu a llif a dilyniant ein gwaith. Mae angen mwy o bwyslais ar onestrwydd; comisiynu ymgynghorwyr arbenigol yn y fframwaith; ffocws cryfach ar reoli risg ac mae'n sicrhau bod ein rôl 'cleient deallus' yn tyfu ac yn dod yn gliriach. Mae'r pwynt aeddfedrwydd hwn yn rhan annatod o'r ffordd y mae Swyddfa'r Fargen Ddinesig (SFDd) bellach yn gallu bwrw golwg llawer ehangach a chyfoethocach ar sut mae'r rhaglen gyfan yn gweithio; sut mae pob un o'r rhannau wedi'u cydblethu ac yn atgyfnerthu ei gilydd a'r rhyngddibyniaethau sy'n bodoli. Ym mis Rhagfyr 2019, yn dilyn diwrnod cynllunio'r cabinet, cyflwynwyd y Cynllun Busnes Blynyddol, yn barod ar gyfer 2020/21 ac yn ddigon cynnar i osod llwybr clir ar gyfer yr holl grwpiau, partneriaethau ac is-strategaethau a chynlluniau sy'n eistedd oddi mewn iddo.*

*Mae hyn i gyd yn pwyntio at ymdeimlad cynyddol o hunanymwybyddiaeth, y gallu i hunanwerthuso'n barhaus ac, wrth i ni ddysgu o wneud, y camau nesaf y mae angen eu rhoi ar waith. O ganlyniad, mae'r DLlB yn fwy na phwynt myfyrio, mae'n ddogfen ganolog sy'n gwasanaethu fel 'bwydwr' ar gyfer pob proses a fframwaith arall ac sy'n caniatáu i SFDd gymryd trosolwg o'r hyn sy'n gweithio, beth sydd angen ei wella a sut mae'r rhaglen gyfan yn gweithio a chyda'r lefelau effeithiolrwydd gofynnol."*

<u>Datblygiadau Allweddol mewn Perthynas â Materion Sicrwydd yn ystod 2019-20</u>

9. Mae 2019/20 wedi bod yn flwyddyn ganolog i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o ran datblygiadau mawr, sydd wedi cryfhau lefel y sicrwydd ond hefyd y digwyddiadau annisgwyl, sydd wedi rhoi prawf i drefniadau

llywodraethu'r Fargen Ddinesig, systemau rheolaeth fewnol ac felly ei gwydnwch cyffredinol wrth ymdopi â digwyddiadau o'r fath.

1. Cymeradwyo'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd

   Gyda chyhoeddi'r Cynllun Twf Economaidd a Diwydiannol ym mis Mawrth a chymeradwyo a lansio'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY) ym mis Mehefin, 2019/20 oedd y flwyddyn y camodd P-RC o'i phwynt cychwyn i bwynt tyfu. Mae'r aeddfedrwydd hwn yn amlwg gyda chanlyniadau a darpariaeth yn cael eu hehangu a phrosiectau allweddol yn cyflawni'r golau gwyrdd – sydd bellach i gyd wedi'u hategu gan fframweithiau cadarn sy'n ymgysylltu, yn cynnwys ac yn darparu sylfaen dystiolaeth glir a phroses asesu sy'n darparu gonestrwydd, didueddrwydd a sicrwydd cryf.

2. Cofrestru a Datgan Buddiannau

   Cynhaliwyd ymarfer cynhwysfawr yn 2019/20 i adeiladu ar waith cynharach a gwblhawyd yn y maes hwn. Datblygwyd cofrestr i olrhain, nodi a diweddaru Datganiadau Buddiannau ar gyfer pob Pwyllgor, Is-bwyllgor, Bwrdd a grŵp swyddogion allweddol yn y P-RC, sef cyfanswm o 77.

   Defnyddiwyd ffurflenni wedi'u diweddaru sy'n ceisio nodi buddiannau ar sail ranbarthol, yn hytrach na lleol. Caiff yr ymarfer hwn ei olrhain drwy'r 'Gofrestr Datgan Buddiannau', sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol, megis: Dyddiad cyhoeddi/dychwelyd/lanlwytho'r ffurflen ar wefan y Fargen Ddinesig, dyddiadau unrhyw ddiwygiadau a gyflwynwyd, newidiadau i aelodaeth yn ystod y flwyddyn ac ati.

   Ceir crynodeb o'r 'Gofrestr Datgan Buddiannau' yn Atodiad 2a. Mae hyn yn dangos, ar 9 Mehefin 2020, y cyflawnwyd cyfradd gydymffurfio o 100%(ffurflenni wedi'u cyhoeddi, eu dychwelyd a'u lanlwytho i'r wefan). Adolygwyd y ffurflenni fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Datganiad Cyfrifon a chaiff y dadansoddiad hwn ei ddatblygu ymhellach yn 2020/21. Yn ogystal, bydd nodyn atgoffa blynyddol yn cael ei roi i bob Grŵp er mwyn sicrhau bod datganiadau'n parhau i fod yn gyfredol, tra bydd diweddariadau'n parhau i gael eu darparu i'r Cabinet yn rheolaidd.

3. Ymateb i'r Pandemig COVID-19

   Gweithredodd BDdPRC yn gyflym i ymateb i'r pandemig COVID-19 drwy baratoi ei dogfen 'Blaenoriaethau P-RC ar gyfer Ymateb i COVID-19 a'r Tu Hwnt'. Bydd hon yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd a'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd. Cymeradwywyd y ddogfen hon gan y Cabinet Rhanbarthol yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2020. Mae'r ddogfen Blaenoriaethau P-RC wedi'i hatodi yn Atodiad 2b.

Yn ogystal, fel rhan o'r DLlB hwn, paratowyd ymatebion i gyfres o gwestiynau mewn perthynas ag effeithiau posibl y gallai COVID-19 fod wedi'u cael ar brosesau llywodraethu a sicrwydd BDdPRC. Nodir y cwestiynau a'r ymatebion yn Atodiad 2c.

4. Cynllun Cyfathrebu Strategol BDdPRC, Marchnata ac Ymestyn ei Chyrhaeddiad Cyffredinol

   Mae cynnydd mawr wedi'i wneud yn 2019/20 i sefydlu sianeli cyfathrebu clir gyda phob rhan o'r gymuned a chyda rhanddeiliaid eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac annog ymgynghori agored.

   Nodir manylion y gweithgareddau a gyflawnwyd a'u heffaith yn Atodiad 2d (Datganiadau 4, 5, 7 a 9) ac maent yn cynnwys creu cynllun cyfathrebu strategol.

## Y Fframwaith Llywodraethu

10. Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cynnwys dwy egwyddor graidd a phum rheol ategol. Mae egwyddorion A a B yn treiddio i egwyddorion C i G ond mae llywodraethu da yn ddeinamig ac mae Cydbwyllgor BDdPRC yn ymrwymo i wella llywodraethu yn barhaus trwy broses werthuso ac adolygu.

### *Egwyddorion Craidd*

a) Ymddwyn gyda hygrededd, dangos ymrwymiad cryf wrth werthoedd moesol a pharchu'r rheol gyfreithiol;
b) Sicrhau natur agored a chynnwys y rhanddeiliaid yn gynhwysfawr.

### *Egwyddorion Ategol*

c) Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;
d) Penderfynu pa ymyriadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni cymaint o'r canlyniadau a fwriedir â phosibl;
e) Datblygu capasiti'r corff, yn cynnwys gallu ei dîm arwain a'r unigolion sy'n rhan o hwnnw;
f) Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarnhaol a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn;
g) Rhoi ymarferion da ar waith yn ddidwyll, adrodd ac archwilio er mwyn cynnig atebolrwydd effeithiol.

## Proses Asesu DLlB 2019-20

11. Yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2019, cymeradwyodd y Cydbwyllgor adroddiad ar 'Sefydlu Swyddfa'r Fargen Ddinesig – Cynllun Ailstrwythuro ac Adnoddau', ac yn

ystod 2019/20 recriwtiodd y Cyfarwyddwr yr Uwch Dîm Arwain. Felly, arweiniwyd proses asesu DLlB ar gyfer 2019/20 gan Uwch Dîm Arwain Swyddfa'r Fargen Ddinesig, gyda mewnbwn a chefnogaeth gan y Corff Atebol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

12. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae asesiad y DLlB yn cynnwys ac yn cydnabod 'Gwaith Arall sy’n Gysylltiedig â Llywodraethu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' a wnaed yn ystod y flwyddyn. Nodir y manylion yn adran 5 isod.

    1. Adroddodd y swyddogion canlynol â chyfrifoldebau llywodraethu allweddol am raddau’r sicrwydd y gallent ei ddarparu yn eu rôl yn erbyn yr 20 o ddatganiadau sicrwydd arfer da. Cynhaliwyd yr asesiad mewn dau gam, gyda'r cam cyntaf yn cysylltu datganiadau penodol â chyfrifoldebau swyddogaethol (fel y nodir mewn cromfachau isod).

        - Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor (Datganiadau 10, 15, 17, 18 a 19);
        - Swyddog Monitro’r Cydbwyllgor (Datganiadau 11, 12 a 13)
        - Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Datganiad 16)
        - Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig (pob Datganiad arall);
        - Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd (pob Datganiad arall)

    2. Rhoddwyd manylion DLlB 2018-19 i bob swyddog a gofynnwyd iddo ddarparu asesiad cychwynnol o faint o sicrwydd y gellid ei ddarparu yn erbyn ei ddatganiadau priodol perthnasol yn 2019/20. Cafodd yr ymatebion cychwynnol eu coladu ac yna, fel ymarfer ail gam, dosbarthwyd yr 20 datganiad llawn i swyddogion i'w hystyried yn ehangach.

    3. Amlinellir y datganiadau yn 'Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da' CIPFA, ac mae'r asesiad yn cydnabod datblygiad ac esblygiad parhaus y Cydbwyllgor, gan nodi bod rheolaethau mewn perthynas â rhai Datganiadau mewn cyfnod o bontio.

    4. Nod yr ymatebion oedd nodi lefel y sicrwydd y gellid ei darparu, gan ddefnyddio system Coch, Ambr, Gwyrdd ehangach, a gafodd ei hehangu i alluogi 5 categori o sgoriau i gael eu cymhwyso, o gymharu â’r 3 safonol. At ddibenion yr asesiad, diffinnir y sgoriau fel a ganlyn:

        - **GWYRDD** - Yn dangos lefel GREF o sicrwydd;

        - **GWYRDD/AMBR** – Yn dangos lefel GREF/GYMEDROL o sicrwydd, ond yn dangos yr angen i ystyried a ellid rhoi rhagor o reolaethau ar waith er mwyn cryfhau lefel y sicrwydd;

        - **AMBR** – Yn dangos lefel GYMEDROL o sicrwydd, a ystyrir i fod yn foddhaol, ond cydnabyddir bod angen rhoi rhagor o reolaethau ar waith i gryfhau lefel y sicrwydd, ac yn nodi’r camau gweithredu gofynnol sydd angen eu cymryd;

- **AMBR/COCH** – Yn dangos lefel GYMEDRDOL/GYFYNGEDIG o sicrwydd a gallai ddod yn 'broblem llywodraethu sylweddol' oni bai yr eir i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth trwy gam(au) gweithredu y cytunwyd arnynt.

- **COCH** - Yn dangos lefel GYFYNGEDIG o sicrwydd, h.y. 'nodwyd mater llywodraethu sylweddol' sydd angen cael ei gydnabod yn ffurfiol a'i ddatrys trwy gam gweithredu y cytunir arno fel mater o flaenoriaeth.

5. Er mwyn mesur barn ehangach rhanddeiliaid, cyhoeddwyd y datganiadau drafft, yr ymatebion a'r sgoriau arfaethedig i aelodau dethol o'r Cabinet Rhanbarthol (Cadeirydd ac Is-gadeiryddion), y Panel Buddsoddi, y Bartneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol a'r Bwrdd Rhaglen. Roedd y broses hon yn ceisio asesu lefel y dilysu ehangach y gellid ei phriodoli i'r broses a'r canfyddiadau drafft.

6. Daethpwyd â sylwadau'r swyddog unigol a'r rhanddeiliaid ehangach at ei gilydd i lunio'r asesiad cyfunol terfynol. Pan gafodd rhagor o gamau gweithredu eu nodi, cafodd y rhain eu cynnwys fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ffurfiol fel y rhestrir yn yr adran casgliadau isod.

7. I sicrhau perchnogaeth, mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi'r manylion canlynol parthed pob cam gweithredu:

   - Perchennog y cam;
   - Dyddiad targed ar gyfer cwblhau;
   - Mecanweithiau ac amlder er mwyn adolygu cynnydd.

8. Bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro a bydd yn adrodd yn rheolaidd drwy 2020/21.

**Gwaith Arall sy'n Gysylltiedig â Llywodraethu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

13. Yn ogystal â'r broses asesu llywodraethu benodol a amlinellir uchod, ymgymerwyd â nifer o adolygiadau eraill sy'n ymwneud â llywodraethu ers dechrau'r Cydbwyllgor. Mae'r gwaith hwn a'i ganfyddiadau'n ategu a chryfhau asesiadau DLIB yn gyffredinol.

**<u>Archwilio Mewnol</u>**

14. Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda'r Corff Atebol.

15. Er mwyn galluogi'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl, paratowyd cynllun archwilio treigl 5 mlynedd, i ddechrau am y cyfnod o 2017-18 i 2021-22, ac mae'n rhestru'r gwaith arfaethedig sy'n ofynnol bob blwyddyn, er mwyn sicrhau'r lefel briodol o sicrwydd. Felly, mae 2019/20 yn cynrychioli trydedd

flwyddyn y cynllun archwilio mewnol a chytunwyd ar Gylch Gorchwyl yr archwiliad canlynol ym mis Mawrth 2020 a chaiff ei gyflawni ddechrau 2020/21:

Adroddiad 1. Adroddiad Archwilio Mewnol BDdPRC 2019/20

Dechreuwyd: Ebrill 2020
Cyhoeddwyd yr Adroddiad: Medi 2020

Amcanion yr Archwiliad:

a) Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu a chymeradwyo achos busnes prosiect yn effeithiol ac yn cael eu cymhwyso'n briodol;
b) Caiff datganiadau o fuddiant eu datgelu, eu hasesu a'u monitro'n briodol;
c) Ymgymerir â gweithgareddau Comisiynu a Chaffael yn unol â Rheolau Sefydlog y Contract a Rheolau Caffael;
ch) Mae yna reolaethau cyflogres effeithiol i sicrhau taliadau cywir a dilys;
d) Mae materion sy'n codi o'r datganiad llywodraethu blynyddol, a'r datganiadau sicrwydd cysylltiedig, wedi'u datblygu'n briodol.

16. Mae'r gwaith archwilio y cyfeirir ato uchod bellach wedi'i gwblhau a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Medi 2020. Daeth i'r casgliad "bod y sgôr sicrwydd cyffredinol, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed a'r samplau a brofwyd yn ystod yr archwiliad, yn **effeithiol gyda chyfle i wella."**

17. Mae'r adroddiad wedi cael ei gwblhau gyda'r Cyfarwyddwr a chytunwyd ar gynllun gweithredu i’r tîm rheoli, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r meysydd hynny gyda chyfle i wella. Mae Cynllun Gweithredu Archwiliad Mewnol 2019/20 i'w weld yn Atodiad 2f.

**Archwiliad Allanol (Archwilio Cymru)**

18. Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel archwilydd y Corff Atebol, sy'n gyfrifol am archwilio Cydbwyllgor BDdPRC yn allanol.

19. Paratoir a chytunir ar Gynllun Archwilio Blynyddol gyda’r Cydbwyllgor, gyda 2019/20 hefyd yn cynrychioli trydedd flwyddyn y gwaith archwilio allanol. Yn ogystal â gwaith archwilio ariannol, mae staff archwilio perfformiad o Swyddfa Archwilio Cymru yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion y Fargen Ddinesig. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau archwilio perfformiad ffurfiol yn 2019-20, er y bu gohebiaeth ynghylch cofrestru a datgan buddiannau aelodau.

**Crynodeb Sicrwydd**

20. Roedd yr ymarfer asesu DLlB a gwblhawyd yn gynhwysfawr, wedi'i gynnal yn unol â Fframwaith Darparu Llywodraethu Da CIPFA ac yn ystyried pob un o'r 20 o ddatganiadau sicrwydd ymarfer da, gan dderbyn ei bod yn bosibl na fydd rhai datganiadau'n uniongyrchol berthnasol i drefniant y cydbwyllgor.

21. Gan adeiladu ar y sylwadau sydd wedi'u cynnwys yn DLlB 2018/19, mae Cyfarwyddwr y Fargen Ddinesig wedi darparu'r datganiad canlynol parthed y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2019/20:

*"Mae 2019/20 wedi bod yn flwyddyn hanfodol i P-RC. Gyda chyhoeddi'r Cynllun Twf Economaidd a Diwydiannol ym mis Mawrth 2019 a chymeradwyo a lansio'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY) ym mis Mehefin 2019, hon oedd y flwyddyn y camodd P-RC o'i phwynt cychwyn i bwynt tyfu. Mae'r aeddfedrwydd hwn yn amlwg gyda chanlyniadau a darpariaeth yn cael eu hehangu a phrosiectau allweddol yn cyflawni'r golau gwyrdd – sydd bellach i gyd wedi'u hategu gan fframweithiau cadarn sy'n ymgysylltu, yn cynnwys ac yn darparu sylfaen dystiolaeth glir a phroses asesu sy'n darparu gonestrwydd, didueddrwydd a sicrwydd cryf.*

*Mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu wedi bod yn gam hanfodol o'r daith. Mae'n cwblhau ac yn rhoi effaith ymarferol i'r Fframweithiau Sicrwydd ac yn caniatáu i P-RC ddatblygu cysyniadau 'bytholwyrdd' a'r egwyddorion ar gyfer sicrhau a mesur cyd-fuddsoddi, trosoledd allanol ac enillion ar fuddsoddiad. Yn ogystal, mae'n amlwg yn cefnogi sectorau â blaenoriaeth ac mae ganddo broses glir a thryloyw, sy'n cynnwys Holiadur (a gwerthusiad) SIFT sy'n arwain at gam datblygu achos busnes cyfrannol. Caiff hyn ei oruchwylio a'i weithredu gan Banel Buddsoddi newydd sy'n gorff cynghori i'r Cabinet Rhanbarthol. Mae hwn yn cynnwys pum aelod o'r PTER a phum aelod o Fwrdd y Rhaglen, gan ddarparu math/graddfa dda o ryngweithio ar draws y sector cyhoeddus a phreifat. Mae'r Panel Buddsoddi yn gwneud argymhellion drwy broses ddilynol, i'r Cabinet Rhanbarthol, ac yn ymgynghori â'r Bwrdd PTER a Bwrdd y Rhaglen yn y broses a lle bo hynny'n berthnasol, yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol. Caiff pob cyflwyniad i'r FfBY ei drin yr un fath ac mae'r broses a adeiladwyd yn rhoi lefel uchel o annibyniaeth a niwtraliaeth.*

*Yn 2019/20 cyfarfu'r Panel Buddsoddi am y tro cyntaf, ddiwedd mis Gorffennaf, gyda 7 cyfarfod pellach yn cael eu cynnal hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020. Mae hyn wedi arwain at hau amrywiaeth o brosiectau a chynigion newydd, megis Parc Gwyddorau Bywyd, seilwaith ffibr llawn a 5G, a hefyd gymeradwyaethau canol ffordd pwysig ar gyfer y Metro Canolog a Metro+ a chymeradwyaeth lawn i Cartrefi i'r Holl Ranbarth a Chynllun Graddedigion P-RC. Yn ystod y cyfnod hwn, penodwyd KPMG hefyd fel ymgynghorwyr masnachol ac ariannol arweiniol drwy ymarfer caffael sector cyhoeddus cydymffurfiol, a Masons Pinsent, a benodwyd fel ymgynghorwyr cyfreithiol drwy ymarfer marchnad agored tebyg. Gyda swyddi allweddol yn y tîm bellach wedi'u llenwi a strwythur gweddol gryf ar waith, mae tîm Swyddfa'r Fargen Dinesig mewn sefyllfa dda i symud pethau ymlaen.*

*Ochr yn ochr â ffocws ar ddarpariaeth a gweithredu rhaglenni, mae'r un faint o sylw'n parhau i gael ei roi i broses dda, llywodraethu cryf a sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith ar gyfer materion fel Datgan Buddiannau (aelodau a*

*swyddogion), cymorth craffu, gweithredu'r blaengynllun, sy'n goruchwylio rhwydwaith cysylltiedig o gyfarfodydd, grwpiau ac ymgynghorwyr, ac archwilio. Cytunwyd, ym mis Medi 2020, gyda'r FfBY ar ddiwedd ei flwyddyn lawn gyntaf o weithredu, y bydd adolygiad yn cael ei gynnal i brofi a gwirio gweithrediadau, trefn, amseriad a phenderfyniadau ac i sicrhau bod gennym fecanweithiau mewnol ar gyfer adolygu a gwerthuso er mwyn llywio'n gyson yr hyn sy'n gweithio, yr hyn sydd ddim yn gweithio a'r gwersi a ddysgwyd. Mae'n cynnwys meithrin gallu a gwydnwch ar gyfer hunanasesu a fydd yn hanfodol i'r Adolygiad Gateway.*

*Cynhaliwyd diwrnod 'cynllunio' cyntaf y cabinet hefyd yn 2019/20 a ddarparodd gynnwys, manylion a ffocws ar gyfer Cynllun Busnes Blynyddol 2020/21. Roedd hwn yn ddigwyddiad llwyddiannus o ran pwyso a mesur a rhoi pwyslais ar flaenoriaethau ac amcanion gwleidyddol i lunio gweithgarwch yn 20/21. Yn ogystal, gwnaed gwelliannau cyson i brosesau ar gyfer monitro'r cynllun busnes blynyddol bob chwarter – y tu hwnt i amcanion olrhain a'u cynnydd o ran integreiddio â gofynion model rhesymeg ar gyfer yr Adolygiad Gateway.*

*Gyda'i gilydd, mae'r systemau a'r broses a phenderfyniadau/ymrwymiadau a wnaed yn 19/20 yn rhoi P-RC mewn sefyllfa dda i ehangu a pharhau i gyflawni. Fodd bynnag, ar yr adeg ysgrifennu, nid yw effaith economaidd lawn COVID-19 wedi'i theimlo eto o ystyried ein bod yn parhau mewn cyfnod o aeafgysgu economaidd. Mae hyn wedi dangos, ochr yn ochr ag ymateb i faterion a heriau heddiw, fod angen cadw tanwydd yn y tanc ar gyfer ymateb i ansicrwydd a newidiadau cyflym mewn sefyllfaoedd. Amser a ddengys sut y bydd hyn i gyd yn dod i ben, ond mae'r ymrwymiad i wneud y pethau iawn - nid y pethau hawdd - a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl yn P-RC yn parhau i fod ar flaen ein hamcanion wrth i ni symud ymlaen.*

*Yn olaf, ymddiswyddodd Cadeirydd y Cydbwyllgor, y Cynghorydd Andrew Morgan, o'i rôl ar ddiwedd 2019/20, gyda'r Cynghorydd Anthony Hunt yn cael ei benodi'n Gadeirydd o 2020/21 ymlaen. Diolchwn i'r Cynghorydd Morgan am ei gyfnod fel Cadeirydd a'r ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangosodd i ddod â'r Fargen Ddinesig i'r pwynt allweddol hwn o aeddfedrwydd. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Cynghorydd Hunt, i adeiladu ar y sylfeini gwych sydd wedi'u sefydlu hyd yma."*

**Crynodeb o Ganfyddiadau**

22. O ganlyniad i ymgymryd â'r broses asesu a amlinellir uchod, daethpwyd i'r casgliad y gellir darparu sicrwydd CRYF yn erbyn 11 datganiad, gydag 8 datganiad arall yn cael eu graddio fel CRYF/CYMEDROL. Mae 1 datganiad (Datganiad 2) wedi'i gategoreiddio fel un sy'n rhoi sicrwydd CYMEDROL.

23. Ni chafodd unrhyw 'faterion llywodraethu sylweddol' eu nodi parthed yr 20 o ddatganiadau sicrwydd arfer da yn 2019/20.

24. Ceir crynodeb o'r sgoriau mewn perthynas â'r 20 datganiad sicrwydd arfer da yn Nhabl 1 isod, gyda manylion pob datganiad, systemau rheolaeth fewnol, sgoriau a chamau pellach sydd eu hangen wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 2d.

Tabl 1. - Crynodeb o Sgoriau Sicrwydd 2019/20

| **Sgôr** | **Cyfanswm** | **Cyf. Datganiad Sicrwydd** | **Manylion Llawn** |
|---|---|---|---|
| **Cryf** | **11** | **Datganiadau: 5, 6, 7, 9, 11, 12, 15, 17, 18, 19 ac 20** | **Atodiad 2d** |
| **Cryf/Cymedrol** | **8** | **Datganiadau: 1, 3, 4, 8, 10, 13, 14 ac 16** | **Atodiad 2d** |
| **Cymedrol** | **1** | **Datganiad 2** | **Atodiad 2d** |
| **Cymedrol/Cyfyngedig** | **0** | **Dd/B** | **Dd/B** |
| **Cyfyngedig** | **0** | **Dd/B** | **Dd/B** |

**Casgliadau a'r Camau Nesaf (Cynllun Gweithredu)**

25. Mae'r asesiad a gwblhawyd mewn perthynas â Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 yn dangos bod gwelliant yn y sgôr sicrwydd ar gyfer 7 datganiad, tra bod y sgôr ar gyfer y 12 datganiad sy'n weddill wedi aros yr un fath.

26. Mae'r sgôr ar gyfer Datganiad 10 wedi'i newid o CRYF i CRYF/CYMEDROL. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r angen i ystyried trefniadau cyfrifyddu a rheoli ariannol yn gynharach, yn ogystal â'r angen i gryfhau trefniadau adrodd i ystyried datblygiad ailadroddol cynigion, wrth iddynt symud drwy broses y Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd.

27. Nododd yr asesiad y gellir darparu sicrwydd CRYF ar gyfer 11 o'r 20 o ddatganiadau sicrwydd arfer da. Bydd y meysydd hyn yn cael eu 'hadolygu'n barhaus' gan swyddogion i sicrhau bod y safonau sicrwydd uchel yn parhau i fod yn berthnasol wrth i'r Fargen Ddinesig esblygu ac aeddfedu.

28. Penderfynwyd ar sgôr o CRYF/CYMEDROL ar gyfer 8 o'r 9 datganiad sicrwydd sy'n weddill, gyda'r datganiad terfynol yn cael ei asesu fel CYMEDROL. Mae'r broses asesu wedi nodi 15 o gamau gweithredu ar wahân, a fydd, pan gânt eu gweithredu, yn ceisio cryfhau ymhellach y lefelau sicrwydd y gellir eu rhoi yn erbyn yr 20 datganiad arfer da.

29. Mae'r camau y cyfeirir atynt uchod wedi'u cynnwys fel rhan o Gynllun Gweithredu DLlB, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 2e. Bydd y camau hyn yn cael eu cymryd yn ystod 2020/21 a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet fel rhan o'r trefniadau adrodd perfformiad chwarterol.

30. Yn olaf, mae 'Gwaith Arall sy'n Gysylltiedig â Llywodraethu' wrthi'n cael ei gwblhau. Unwaith y bydd adroddiadau wedi'u cwblhau, eu cyhoeddi a'u cytuno, bydd y Cydbwyllgor yn ystyried ac yn ymateb yn ffurfiol i unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion a gyflwynwyd.

Ardystiad gan Gadeirydd Cydbwyllgor Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chyfarwyddwr Rhaglen y Fargen Ddinesig.

__________________________ ________________

**Y Cynghorydd Anthony Hunt** **Dyddiad**

__________________________ ________________

**Kellie Beirne** **Dyddiad**

ATODIAD 2a

# Cofrestr Buddiannau 2020/21: CRYNODEB (fel yn 09.10.20)

| | Grwp | Grwp Aelodaeth | Grwp Completed | % Wedi'I Gwblhau | Gwelliant 1 Dyddiad | Gwelliant 2 Dyddiad | Gwelliant 3 Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cabinet Rhanbarthol | 10 | 10 | 100.0% | | | |
| 2 | Panel Buddsoddi | 10 | 10 | 100.0% | | | |
| 3 | Parnership Twf Economaidd Rhanbarthol | 13 | 13 | 100.0% | | | |
| 4 | Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol | 10 | 9 | 90.0% | | | |
| 5 | Cyngor Busnes Rhanbarthol (dan adolygiad) | | | | | | |
| 6 | Bwrdd y Rhaglen | 10 | 10 | 100.0% | | | |
| 7 | Swyddfa Bargen y Ddinas | 16 | 16 | 100.0% | | | |
| 8 | Bwrdd Ffowndri CSC | 10 | 10 | 100.0% | | | |
| | **Cyfanswm** | **79** | **78** | **98.7%** | | | |

**CRYNODEB – BLAENORIAETHAU P-RC AR GYFER YMATEB I COVID-19 A THU HWNT**

- Mae effeithiau economaidd COVID-19 yn ddramatig a digalon. Fodd bynnag, mae pethau'n newid ac yn esblygu drwy'r amser ac er na fydd yr economi'n 'bownsio'n ôl' yn syth – rhaid i ni gadw meddwl agored, osgoi ymatebion difeddwl a gweithio mewn amser-real
- Mae'r pethau rydym wedi'u blaenoriaethu o'r blaen yn berthnasol o hyd ac mewn gwirionedd mae'r ffocws wedi cynyddu mewn perthnasedd ar sectorau â blaenoriaeth fel technoleg feddygol, technoleg ariannol, seiber, Deallusrwydd Artiffisial/Data ynni, seilwaith a lled-ddargludyddion cyfansawdd
- Nid yw'r her yn ymwneud â pharatoi ar gyfer barn sefydlog ar newid cyflawn a hirdymor gymaint â'r gallu i addasu a diwygio a bod yn glir am y math o etifeddiaeth y gallai'r argyfwng hwn alluogi P-RC i'w chyflawni
- Er enghraifft – patrymau gwaith, heriau polisi cyhoeddus, ail-fframio sut rydym yn gwerthfawrogi galwedigaethau 'allweddol' ac yn canolbwyntio ar anghysondeb o ran effaith ar draws lleoedd a sectorau economaidd yn P-RC
- Mae P-RC wedi neilltuo amser i adeiladu'r wybodaeth a'r data, llywio meini prawf a blaenoriaethau ar gyfer y llywodraeth; helpu busnesau drwy fframweithiau a rhaglenni a sicrhau bod busnesau'n sicrhau'r cymorth gorau posibl sydd ar gael, yn ogystal â chynllunio ar gyfer y camau nesaf wrth i'r economi ddeffro. O fewn hyn, mae cynigion cynllun newydd hefyd yn cael eu cyflwyno mewn ymateb uniongyrchol i COVID.

- O ran blaenoriaethau'r dyfodol, dylai P-RC felly:
    - osgoi gofod ymateb torfol byrdymor;
    - glynu wrth y cynllun – hirdymor, strategol ac yn canolbwyntio ar ddiwydiannau'r dyfodol a chydbwysedd â thwf sylfaenol lleol;
    - sicrhau y gall ddiwygio ac addasu rhaglenni a'u diogelu at y dyfodol;
    - defnyddio offer ac atebion ariannol perthnasol lle ceir cwmni neu gynnig ymarferol sydd wedi'i brofi;
    - cefnogi arloesedd technoleg feddygol a pharodrwydd arloesi ac Ymchwil a Datblygu;
    - manteisio ar gyfleoedd i greu etifeddiaeth gadarnhaol ar ôl COVID a arweinir gan y sector cyhoeddus.

Mae ymateb P-RC yn cynnwys 10 blaenoriaeth i lunio ffocws yn y dyfodol o dan 3 phennawd:

1. Rheoli Cyfrif:
    - Adeiladu sylfaen gwybodaeth fusnes a helpu busnesau i lywio opsiynau/cyfleoedd.
    - Paratoi ar gyfer beth sy'n dod nesaf.
    - Cicio teiars rhaglenni sy'n bodoli eisoes i ddiwygio ac addasu i'r normal newydd.
2. Ymateb a Gwydnwch:
    - Cefnogaeth i fusnesau newydd – cymorth cychwyn busnes.
    - Cronfeydd strwythuredig: Cronfa Gyd-fuddsoddi BBaChau; Cronfa Eiddo Bytholwyrdd a Pharodrwydd Buddsoddi.
    - Rhaglen y Gronfa Her i ail-adeiladu cyfoeth lleol ar ôl COVID.
    - Galwad agored am arloesedd technoleg feddygol.
    - Sefydlogi busnesau allweddol drwy wahanol gynhyrchion – ecwiti cydgyfeiriol, cyfranddaliadau Eiddo Deallusol, gwarantau a diogelwch a'r gyfatebiaeth bosibl ar gyfer y Gronfa Parod at y Dyfodol.

3. Adfer ac Atgyfodi:
   - o Datblygu rhaglenni cymorth ar gyfer clystyrau blaenoriaeth ar raddfa ddiwydiannol
   - o Cymorth i fusnesau canolig eu maint

**CYFLWYNIAD**

Dim ond 9 Mawrth oedd hi ond mae'n teimlo fel oes yn ôl pan ddaeth Cabinet P-RC ynghyd ddiwethaf i gymeradwyo Cartrefi i'r Holl Ranbarth, y Cynllun Graddedigion a'r Metro Canolog a rhoi hwb i weithgarwch gwyddorau bywyd a digidol. Cymaint yw'r gwahaniaeth nawr o gymharu â'r byd a fu, roedd y fersiwn gyntaf o'r adroddiad hwn yn bwrw golwg lom ar yr economi. Mae'r rhagolygon yn dal yn ddramatig a digalon. Fodd bynnag, mae hwn yn lle sy'n esblygu. Nid yw'r hyn sy'n flaenoriaeth heddiw yn gymaint o flaenoriaeth fory. Mae cynlluniau, mentrau a hyblygrwydd newydd yn cael eu cyflwyno drwy'r amser. Dengys rhagolygon economaidd, tra'n dal i ragweld dirwasgiad ar raddfa fawr, y gallai'r adfywiad siâp 'V' barhau i ddigwydd dros amser ac efallai na fydd rhifyddeg y flwyddyn lawn ar amcanestyniadau CDG, er ei bod yn amlwg yn wahanol iawn i unrhyw beth cyn COVID, mor wael ag y tybiwyd gyntaf.

Nid yw hyn yn golygu y bydd yr economi'n 'bownsio'n ôl'. Ni fydd hyn yn digwydd. Ond yr her mewn cyfnod mor anwadal ac ansicr yw cadw meddwl agored, gan osgoi ymatebion strwythurol cyflym a gweithio mewn 'amser-real'. Yn yr hirdymor, efallai na fydd pethau'n newid cymaint â'r disgwyl ac mae'n sicr yn ymddangos y bydd perthnasedd blaenoriaethau fel seilwaith, data, seiber, lled-ddargludyddion cyfansawdd, ynni a thechnoleg feddygol yn cynyddu. Nid yw blaenoriaethau'r dyfodol a nodir isod yn ymwneud gymaint â pharatoi ar gyfer newid hirdymor ar raddfa gyfan. Ond maen nhw'n sbarduno'r cwestiwn: ***allwn*** ni newid – ac er gwell? Peidiwch byth â gwastraffu argyfwng. Pa ysgogiad ychwanegol y gall P-RC, yn ei rhagolygon 20 mlynedd, ei roi i batrymau gweithio ac i ail-bennu heriau a materion polisi cyhoeddus? Sut y gallwn ail-fframio sut yr ydym yn gweld ac yn gwerthfawrogi rhai galwedigaethau a chanolbwyntio ar anghysondeb effaith economaidd ar draws cymunedau a sectorau'r economi?

**YR HER**

Mae COVID-19 yn cael effaith ddofn ar yr economi fyd-eang. Ym mis Ebrill cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol adroddiad yn rhagweld gostyngiad serth o 35% mewn CDG ar gyfer Ch2 2020 gyda gwelliannau cynyddrannol wedi hynny. Mae maint ymateb y llywodraeth drwy ysgogiad cyllidol yn ddigynsail ac mae'r pecyn o fesurau marchnad dorfol yn ddiamheuol o hael. Serch hynny, mae yna fylchau ac mae cwmnïau o bob maint a graddfa weithredu yn cwympo rhwng y craciau. Mae hylifedd wedi gwella gyda Lleddfu Meintiol, ymestyn cynlluniau cymorth ariannol ac, yng Nghymru, y Gronfa Cadernid Economaidd gwerth £500m. Fodd bynnag, erys heriau o ran cael arian i fusnesau cymwys a hyfyw yn ddigon cyflym.

Mae ymateb sefydliadau'r sector cyhoeddus lleol wedi bod yn eithriadol - wrth ddelio ag argyfyngau sifil ac argyfwng iechyd y cyhoedd. Yn ogystal, gwnaeth llawer o Gynghorau P-RC gyflwyno rhyddhad ardrethi/grantiau busnes o fewn dyddiau. O ran cost hyn, fodd bynnag, mae rhwymedigaethau'r sector cyhoeddus yn codi; a bydd marchnadoedd bondiau yn ei chael hi'n fwyfwy anodd treulio graddfa'r ddyled lywodraethol sydd ei hangen mewn cyfnod byr i ariannu gwariant ychwanegol.

Bydd y pandemig yn parhau i effeithio ar aelwydydd am gyfnod hir – ni chaiff ei farnu mwyach mewn wythnosau neu fisoedd. Mae'r ymateb hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr

argyfwng meddygol/iechyd y cyhoedd gyda phwyslais eilaidd ar yr economi. Fodd bynnag, bydd angen archwilio'r effeithiau seicolegol/cymdeithasol hefyd.

Mewn termau economaidd byd-eang, ceir effaith ar gadwyni cyflenwi ac felly lyfrau archebion busnes. Mae arwyddion bellach yn awgrymu bod Tsieina yn adfer yn gyflymach o COVID-19 a allai olygu bod economi Tsieina yn cryfhau ei sefyllfa mewn rhyfeloedd masnach gydag UDA a allai weld newid yng nghanol yr economi fyd-eang.

Mae ffocws cynyddol ar y wladwriaeth yn cymryd cyfranddaliadau ecwiti a darparu diogelwch. Mae adborth gan fusnesau canolig/mwy yn dangos, er bod mynediad at gyllid masnachol yn para, fod yr angen i sensiteiddio strategaethau'r dyfodol mewn lleoliadau masnachu anwadal yn amlygu risg i hyd yn oed y busnesau cryfaf. Mae hyn yn effeithio ar gryfder cyfamod ac felly gost benthyca.

Mae ymddygiad yn y sector bancio hefyd wedi bod yn amrywiol. O ymatebion araf i osod Gwarantau Personol yn erbyn y Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CBTFC) ac, eto, ailadrodd yr her diogelwch/gwarant – codir cwestiynau am allu sefydliadau ariannol (y cafodd rhai ohonynt eu 'hachub' gan y wladwriaeth yn ystod argyfwng ariannol 2007/08) i ymateb.

Mae sefyllfa Prifysgolion hefyd yn hanfodol. Mae'r ddibyniaeth ar fyfyrwyr tramor yn cael ei thanseilio'n ddifrifol gan COVID-19. Ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod, 20/21, mae heriau mawr o ran ymarferoldeb gyda galwadau am ymyrraeth gan y llywodraeth heb sôn am yr effaith ar arloesedd a gwyddoniaeth – un o bethau cadarnhaol y pandemig – ac nid dim ond o ran dod o hyd i frechlyn, ond mewn nodweddion genomeg mapio data, glanweithio cyflym a gweithgynhyrchu dyfeisiau a diagnosteg yn ystwyth. Mae i hyn oblygiadau i'r targed Ymchwil a Datblygu o 2.4% erbyn 2027.

Ar gyfer P-RC, mae hyn yn golygu:

- Ymateb mewn ffordd sy'n ystyried/ategu pecynnau ysgogi. Mae'r gofod ymateb uniongyrchol dan-ei-sang. Rhaid i ni gadw i raddau helaeth at y cynllun, ond ei gyflymu ac, yn unol â'r rhagolygon 20 mlynedd, bod yn barod ar gyfer 'beth sy'n dod nesaf'.
- Cataleiddio a chefnogi parodrwydd arloesi. Mae COVID-19 yn tanio'r don nesaf o arloesedd – yn enwedig yn y meysydd digidol, technoleg feddygol, e-fasnach, gweithio o bell, cadwyni cyflenwi a data a deallusrwydd artiffisial. Mae cwmnïau eisoes yn dangos arwyddion o'r gallu a'r ystwythder i fanteisio ar y newidiadau sylfaenol ac aflonyddgar hyn.
- Defnyddio gwahanol ddulliau ac atebion ariannol lle mae diwydrwydd dyladwy yn gofyn amdanynt a lle mae cwmni neu gynnig hyfyw i'w gefnogi.
- Parhau i gefnogi clystyrau â blaenoriaeth o ystyried bod tystiolaeth yn dangos bod sectorau fel lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg feddygol, technoleg ariannol, deallusrwydd artiffisial, seilwaith ac ynni yn allweddol i ail-adeiladu economïau.
- Manteisio ar gyfleoedd i wneud pethau'n wahanol. Mae gwledydd yn nodi cynlluniau ar gyfer maniffestos economaidd newydd ar ôl COVID. O Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn Sbaen i gynllun yr Iseldiroedd i drawsnewid amaethyddiaeth i hybu diogelwch bwyd – mae yna ewyllys am etifeddiaeth wahanol ar ôl COVID. Nid yw hyn yn ymwneud â derbyn 'newid/dim newid' fel rhywbeth anochel – mae'n ymwneud â phenderfynu ***beth*** mae P-RC am ei newid drwy arweinyddiaeth sector cyhoeddus.

Mae hyn i gyd yn awgrymu y dylid strwythuro dull gweithredu P-RC drwy dri phrif gam:

1. **C 1/ Ymateb Cynnar 'Rheoli Cyfrifon a Mwy'** – cydlynu gwybodaeth; cyfeirio a chyfarwyddo; adeiladu sylfaen wybodaeth economaidd gyfoethog a dylanwadu. Mae hyn yn cynnwys tynnu sylw at fylchau a helpu i froceru atebion yn ogystal â chicio teiars rhaglenni sy'n bodoli eisoes i asesu perthnasedd parhaus a'r angen i ymaddasu.

2. **C 2/ Sefydlogi ac Adeiladu Gwydnwch** – cefnogi gallu goroesi busnesau a chwmnïau allweddol drwy ddulliau newydd ac ysgogiadau ariannol sy'n ymateb i heriau a ddangosir; cyflymu cynlluniau ar gyfer cymorth strwythurol mwy targedig (Cronfa Gyd-fuddsoddi BBaChau; Cronfa Safleoedd Strategol a Rhaglen Parodrwydd Buddsoddwyr); sefydlu Cronfa Her a chymorth penodol targedig o amgylch cyfleoedd arloesi technoleg feddygol. Mae'r olaf yn hollbwysig. Er bod gennym sector eithaf datblygedig yn y rhanbarth o amgylch dyfeisiau a diagnosteg yn benodol, mae dros 60% o'r offer yn dal i ddod o Tsieina.

- **C 3/ Paratoi ar gyfer Adfer ac Atgyfodi** – datblygu dull o ail-dyfu ac adfywio economaidd. Dylai hyn gefnogi ein clystyrau blaenoriaeth fel 'diwydiannau'r dyfodol' amlwg sy'n gallu cael effaith drawsnewidiol. Bydd hyn yn gofyn am becynnau cymorth wedi'u teilwra'n well a dull hirdymor o gael gafael ar gyllid.

**Yr hyn rydym wedi'i ganfod hyd yn hyn**

Ym mis Mawrth comisiynodd P-RC Arolwg Busnes. Cafwyd dros 700 o ymatebion, a daeth llawer mwy i law drwy fewnwelediad cwmnïau a rhwydweithiau ysgogi gyda chyrff y diwydiant:

- Cadarnhaodd 98% o fusnesau y byddai COVID-19 yn effeithio arnynt – gyda'r gostyngiad mewn sail cwsmeriaid, llif arian ac incwm yn brif bryderon ynghyd â lles gweithwyr
- Cymhwysedd a sut i gael gafael ar gymorth. Cymerir swyddogaeth gyllid yn ganiataol bob amser nawr
- Anfodlonrwydd â'r cynllun CBTFC ac ymddygiad/gweithdrefnau bancio
- Y tu hwnt i fynediad at gyllid cyflym – mae cyllid amyneddgar pwrpasol tymor canolig/hirdymor yn hollbwysig
- Heriau o ran diogelu a choladu
- Cyflymder gweithredu a mesurau a weithredir fel pecyn cynhwysfawr
- Cymorth i unig fasnachwyr a'r hunangyflogedig
- Mae angen arloesi i ymestyn arferion fel Disgowntio Anfonebau
- Cymorth ar gyfer arallgyfeirio busnes ac, yn arbennig, e-fasnach/busnesau digidol
- Yr angen i ALlau gynnal sesiynau 'cadw mewn cysylltiad' a'r angen am weminarau ar gyfer BBaChau
- Ystyried 'beth sy'n dod nesaf' – dim ond cynnal y sefyllfa bresennol y mae'r cynlluniau presennol
- Mae angen cymorth o ran tyfu clwstwr gweithredol o fusnesau technoleg feddygol sy'n canolbwyntio ar atebion, y mae llawer ohonynt wedi mynd allan o'u ffordd i arloesi
- Mae angen pecynnau cymorth wedi'u teilwra ar gyfer busnesau canolig a mwy o faint. Pan fydd gwendidau allweddol yn ymddangos, mae'r sgil-effeithiau yn gweithio'u ffordd i lawr drwy gadwyni cyflenwi
- Effaith anghymesur y trothwyon rhyddhad ardrethi a'r dreth £500k ac effeithiau ar westywyr, manwerthu ac archfarchnadoedd mwy

**Beth rydym wedi'i wneud**

Rydym wedi datblygu a rhannu â Llywodraethau Cymru a'r DU nodiadau cyngor a chanllawiau dylanwadol. Y cyntaf oedd Trosolwg Cynlluniau Cymorth Busnes; yr ail oedd Bylchau yn y ddarpariaeth a'r trydydd oedd Disgwyliadau Cymorth Busnes v Realiti. (Gambit). Mae camau gweithredu ychwanegol yn cynnwys:

- Ymgysylltu parhaus ar draws pob un o'r deg ALl, LlC, Busnes Cymru, Prif Swyddogion Rhanbarthol a CLlLC i rannu cyfathrebu cynnar ac ymdrechu i sicrhau cysondeb
- Ymgysylltu â ffocws gyda Innovate UK ac UKRI ar her newydd a galwadau agored
- Datblygu un ymgyrch gyfathrebu gydgysylltiedig ar draws ALlau i helpu busnesau i wneud y mwyaf o'r cymorth sydd ar gael

- Ymgysylltu â Siambrau Masnach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Sefydliad Cyfarwyddwyr, Banc Busnes Prydain, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru i rannu gwybodaeth a chydlynu negeseuon allweddol
- Cyhoeddi dros 20 erthygl drwy borth Newyddion Busnes Cymru a LinkedIn
- Datblygu ein hadran COVID-19 ein hunain ar wefan P-RC
- Cwestiynau Cyffredin a dolenni defnyddiol sydd wedi'u diweddaru'n ddyddiol
- Cyfathrebu parhaus ar gynlluniau a rhaglenni allweddol
- Sylw yn y cyfryngau i Ymchwil a Datblygu a gwyddoniaeth ac arloesedd sy’n arddangos technoleg feddygol
- Cyfres o bodlediadau a 121 o gyfweliadau ar y pynciau uchod
- Parhau i greu a datblygu cynlluniau, gan gyflymu amserlenni ac effeithiau drwy 2 Banel Buddsoddi

**Blaen-Ffocws**

**Cam 1 - Rheoli Cyfrifon, Gwybodaeth Busnes a Dylanwadu**

Mae'r economi'n esblygu ac, ar hyn o bryd, yn crebachu’n gyflym. Mae'r gofod cymorth uniongyrchol 'achub a mechnïo’ yn un gorlawn sy'n aml yn rhwystredig. Gall mynediad, cymhwysedd a'r meini prawf gwahanol ar gyfer pob un o'r cynlluniau fod yn rhwystrau i fynediad.

**BLAENORIAETH 1 – Helpu i lywio.** Rhaid i P-RC barhau i chwarae rhan hanfodol wrth helpu busnesau i lywio'r dirwedd hon; dehongli canllawiau a thynnu sylw at fylchau fel bod llywodraethau'n gallu ystwytho/mireinio eu cynnig. Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau â'r strategaeth gyfathrebu ar gyfer cyfeirio a chydlynu; diweddariadau i'r darn 'Disgwyliadau v Realiti'; cymorth i lywodraethau a Banc Busnes Prydain ar weithredu a sicrhau bod gan fusnesau y wybodaeth sydd ei hangen i fanteisio'n llawn ar yr hyn sydd ar gael.

**BLAENORIAETH 2** – **Dangos tystiolaeth o'r hyn sy’n dod nesaf.** Byddwn yn defnyddio'r cam cychwynnol hwn i gasglu'r dystiolaeth ac adeiladu gallu dadansoddol a ddarperir gan yr Ysgol Daearyddiaeth Economaidd ym Mhrifysgol Caerdydd a thrwy waith ar y dangosfwrdd data; cynnwys yr ysgoloriaethau ymchwil PhD data YSEW a pharhau â chyhoeddiadau sy’n ysgogi’r meddwl. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi'r tueddiadau a gweld y blaenoriaethau – er enghraifft – yr effaith economaidd anghyson, gydag awyrennu, twristiaeth, manwerthu nad yw’n fwyd a hamdden wedi cau am gyfnod estynedig tra bod diwydiannau, offer a defnyddiau traul sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn gweld cynnydd enfawr.

Bydd y cam hwn yn ein helpu i symud y tu hwnt i gyfeirio eraill at 'gyllid' i lywio materion tymor canolig sy'n ymwneud â mynediad amyneddgar at gyllid. Bydd defnyddio data i lywio'r gwaith o ddatblygu cymorth mwy pwrpasol hefyd yn helpu i liniaru'r risgiau cymdeithasol sy'n deillio o grebachu economaidd. Bydd hyn yn allweddol yn P-RC o ystyried y cysylltiad sefydledig rhwng tlodi, iechyd gwael a chyfleoedd bywyd cyfyngedig. Bydd rôl ganolog i'r Cyngor Busnes diwygiedig ei chwarae yma.

**BLAENORIAETH 3 – Cicio'r teiars.** Mae AA ac arbenigwyr eraill wedi adrodd ar newidiadau teithio ar ôl y Coronafeirws, gan ragweld gostyngiad parhaol yn y galw am deithio oherwydd y nifer sy'n manteisio ar weithio o bell ac enillion mawr a wneir o ran ansawdd aer gwell. Mae rhai sylwebwyr yn dadlau y dylai mwy o bwyslais polisi/gwariant cyhoeddus fynd ar seilwaith digidol yn hytrach na seilwaith ffyrdd. Bydd cynnal ffocws ar drafnidiaeth gyhoeddus yn allweddol o ystyried y potensial ar gyfer gwella cydbwysedd rhwng gweithio gartref, gweithio mewn swyddfa a gweithio’n lleol.

Mae trafodaeth gynnar gyda LIC yn awgrymu y dylid ail-redeg yr holl ragolygon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ac argymhellwyd y dylid gwneud darn o waith ar y cyd drwy'r

Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol i lywio safbwynt cyffredin ar fuddsoddi mewn trafnidiaeth yn y rhanbarth yn y dyfodol. Mae cyfle gwirioneddol i feddwl sut y gallai hyn arwain at strategaeth fwy gwahaniaethol ar gyfer P-RC sy'n ymdrechu at well cymarebau na'r 80:10:10 presennol o ddefnydd ceir, trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

Ar gyfer y Cynllun Graddedigion – mae'r pwyslais ar hyn o bryd ar gynnal a gweithio gyda'r cwmnïau hynny sydd wedi cymryd rhan i gynnal cydberthnasau a diddordeb (cyfres Through the Looking Glass). Mae'r galw wedi gostwng yn sylweddol am y cynllun yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ond mae arwyddion o ddiddordeb newydd mewn eraill (iechyd/technoleg feddygol). Mae'n debygol y bydd angen i'r ffocws droi'n rhaglen gymorth ailsgilio/AU/AB ehangach sy'n adlewyrchu sifftiau a welir wrth i rai sectorau ddod yn ddiangen tra bod eraill yn tyfu ac yn gofyn am dalent a chapasiti.

Mae gwaith ar y gronfa dai i brofi rhagdybiaethau a'i hystyried yng nghyd-destun trothwyon risg is (y Gronfa Cyllid BBaChau yn arbennig) wedi dangos y gall barhau i weithio – er efallai gyda dechrau arafach a thrwy ddulliau a arweinir gan bortffolio, sy'n lliniaru'r risgiau sy'n fwy cyffredin erbyn hyn.

Bydd lefelau uwch o entrepreneuriaeth, twf a chynhyrchiant yn hanfodol yn y rhanbarth wrth adfer o'r cyfnod cloi COVID 19. Mae angen cyflymu rhaglenni fel cysylltedd ffibr llawn, 5G a Data/Deallusrwydd Artiffisial o ystyried y ddibyniaeth arnynt fel seilwaith craidd. Mae cyfarfod gyda Gweinidog Digidol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Mawrth wedi arwain at gais i P-RC rannu ei huchelgeisiau digidol. Mae'n fwy na gweithgynhyrchu uwch, technoleg ariannol a lled-ddargludyddion cyfansawdd, a bydd gwyddorau bywyd yn hanfodol i ymdrechion hirdymor P-RC.

**Cam 2 - Ymateb a Gwydnwch**

Bydd lleddfu'r cyfnod cloi ar y pwyntiau perthnasol yn gofyn am ystyriaeth ofalus o ran pryd y mae gofynion iechyd yn ildio i bryderon economaidd. Rhaid i P-RC fod yng nghanol yr hyn sy'n digwydd ar ôl deffro o'r gaeafgysgu economaidd a lliniaru'r diffyg macro-economaidd.

**BLAENORIAETH 4 – Cefnogi busnesau newydd.**Mae sicrhau bod entrepreneuriaid yn cael eu cefnogi drwy'r broses o ddechrau a datblygu busnes yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn gwella, yn enwedig gan mai busnesau newydd sy'n creu'r rhan fwyaf o'r swyddi mewn economi. Mae angen i entrepreneuriaid gael mynediad at arbenigedd, gwybodaeth, cyfalaf hadau a chymuned gefnogol ond mae'r cyfnod cloi COVID 19 wedi gweld llawer o fusnesau newydd yn methu cael cymorth. Byddai darpariaeth ariannu o'r fath yn ddelfrydol ar gyfer Cronfeydd Ffyniant a Rennir.

Efallai na fydd modelau traddodiadol o gymorth busnes yn berthnasol mwyach. Yn hytrach, gall fod atebion gwahanol a yrrir drwy ddarpariaeth ar-lein a fydd yn creu amgylchedd mwy cefnogol i gynyddu nifer y busnesau newydd, gwella eu cyfradd goroesi a sicrhau bod mwy o gwmnïau'n tyfu. Bydd ymyriadau allweddol i gryfhau'r amgylchedd ar gyfer entrepreneuriaeth yn cynnwys mwy o fannau cydweithio ym mhob rhan o P-RC, rhwydweithiau lleol cryf o entrepreneuriaid i sicrhau cymorth mentora a rhaglen cymorth busnes ryngweithiol ar-lein.

**BLAENORIAETH 5 - Datblygu cymorth ariannu mwy strwythuredig.** Mae'n bryd cyflymu'r uchelgeisiau ar gyfer sefydlu ton gyntaf o gronfeydd targedig allweddol i liniaru rhai o'r effeithiau gwaeth ar fusnesau. Gallai ail gam o gyllid weld P-RC yn edrych ar Gronfeydd Ffyniant a Rennir i gael cymorth pellach ar amrywiaeth o raglenni.

- Y flaenoriaeth gyntaf yw datblygu ***Cronfa Cyd-fuddsoddi BBaCh*** fel rhan allweddol o gynllun entrepreneuriaeth, twf a chynhyrchiant ar gyfer y rhanbarth. Mae deialog yn mynd rhagddo gyda darpar bartneriaid buddsoddi ynghylch cyfalafu. Yng ngoleuni'r angen am fynediad pwrpasol mwy tymor canolig at gyllid, bydd hyn yn gweithredu yn y gofod ehangu,

yn hyrwyddo sectorau â blaenoriaeth ac yn creu systemau cymorth mwy strwythuredig y tu hwnt i'r gronfa i gwmpasu cymorth entrepreneuriaeth. Bydd maint posibl y gronfa yn fwy na £50m, gydag o leiaf £25m o P-RC (yn amodol ar achos busnes), gan greu ecwiti i fusnesau sy'n fasnachol hyfyw.

- Wedi'i alinio â hyn mae cymorth ***Parodrwydd Buddsoddi*** sy'n hwyluso mynediad at gyllid ac sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd llif y fargen. Yn aml, mae cynigion buddsoddi yn cymryd mwy o amser nag yr hoffem i 'dynnu drwodd' oherwydd, er eu bod yn ddiddorol, ni all y cynigydd egluro eu heffaith; mae'n disgrifio'r model busnes yn unig a mynegi'r cynnig buddsoddi'n gryno. Byddai hyn hefyd yn gweithio fel arf ysgogi buddsoddi gweithredol.

- Comisiynwyd CBRE i ddatblygu ***Cronfa Safleoedd Strategol*** gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r ymchwil a wnaed gan JLL (ar gyfer P-RC) a SQW (ar gyfer LlC). Er y bydd effeithiau'r galw ar swyddfeydd mewn senario 'busnes fel arfer' yn addasu eto, mae'r pwyslais yma yn ymwneud mwy â strategaeth nodedig, sy'n gysylltiedig â newidiadau tebygol o ran teithio i'r gwaith; alinio â sectorau â blaenoriaeth/safleoedd strategol clwstwr a gweithio hyblyg. Yn benodol, mae cynyddu nifer y busnesau newydd sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ddwy brif ddinas yn hanfodol er mwyn sicrhau rhanbarth mwy entrepreneuraidd.

**BLAENORIAETH 6 – Sefydlu Rhaglen Her Ailadeiladu Economïau Lleol**

Mae cyfle gwirioneddol i gyrff cyhoeddus adeiladu etifeddiaeth gadarnhaol ar ôl COVID. Ni ddylai'r mesurau, yr ymddygiadau a'r addasiadau sydd bellach ar waith wrth i ni barhau â'r cyfnod cloi fod yn ymatebion dros dro i argyfwng. Mae sefydliadau, gwasanaethau a phobl ym mhobman wedi symud yn gyflym y tu hwnt i fannau cyfforddus. Rydym wedi ail-gysylltu â'r hyn sy'n bwysig ac, yn bwysicach fyth o bosib, ein gilydd. Mae modelau gweithredu newydd, cydweithrediadau newydd a chydnabod bod y digidol/data yn biler gwydnwch craidd i gyd wedi chwarae rhan fawr – a rhaid iddynt barhau i wneud hynny.

Byddai'r rhaglen yn gweithio drwy ddewis 2 neu 3 her i ffurfio'r ffocws ar gronfeydd her unigol. Y syniad yw y byddai'r rhain yn anelu at adeiladu meddwl newydd, gwasanaethau, ffyrdd newydd o weithio a chynhyrchion o bosibl, sy'n cyfrannu at fomentwm newydd a'r 'normal newydd' mewn byd ôl-COVID.

Mae'r egwyddor graidd yn ymwneud â rhoi gallu a sgiliau arloesi ochr yn ochr â'r newidiadau a'r heriau, fel bod dysgu a gwerth yn cael eu *cymhwyso* ac yn parhau i ledaenu, ehangu a datblygu. Mae hyn yn lle dychwelyd i 'fusnes fel arfer' – pan fydd y gwaethaf o'r pandemig ar ben. Mae perygl gwirioneddol, pan fydd y gofynion gofal iechyd yn ildio i bryderon economaidd mwy hirdymor, y byddwn yn estyn am yr hyn a wyddwn ac na fyddwn yn glynu wrth yr hyn rydym wedi'i ddysgu. Felly, bydd y rhaglen arfaethedig yn cynnwys:

1. Elfen sgiliau arloesi a meithrin gallu sy'n cyd-fynd ag InFuSe – ein cais o dan Raglen Adeiladu Gallu Sefydliadol P5 WEFO
2. Buddsoddi i gefnogi datblygiad arloesiadau newydd drwy raglen yn arddull MYBB sy'n ystyried heriau fel heneiddio'n iach, datgarboneiddio, adnewyddu'r economi sylfaenol, democratiaeth ddigidol a symudedd yn y dyfodol/gwell swyddi yn nes at adref
3. Partneriaeth gymysg unigryw ar draws P-RC, Prifysgol Caerdydd, Nesta/Y-Lab ac Alacrity (y Fainc Arbrofi Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n dod i'r amlwg) ac, o bosibl, cydweithwyr yn Arloesi LlC a Chanolfan Ragoriaeth MYBB
4. Rhaglen ariannu sy'n cynnwys £10m P-RC, £4m WEFO a chyfraniadau gan bartneriaid sy'n berchnogion her wrth i gynnydd gael ei wneud drwy'r rhaglen a buddsoddiad pellach drwy ymrwymiadau cwsmeriaid cyntaf neu gwsmeriaid terfyn posibl. Mae potensial hefyd i 'baru' MYBBau sy'n cael eu rhedeg drwy Ganolfan Ragoriaeth LlC a MYBB a sicrhau mwy o ddylanwad.

**BLAENORIAETH 7 – Cyflymu Clwstwr Technoleg Feddygol P-RC drwy gefnogi arloesedd Technoleg Feddygol.** Nawr yw'r amser i wireddu manteision llawn Clwstwr Technoleg Feddygol yn P-RC. Mae deallusrwydd yn awgrymu mai dyma ein hail obaith economaidd mwyaf aeddfed gyda chadwyn gyflenwi gref, cwmnïau angori da a chyrhaeddiad rhyngwladol yn y farchnad, ac mae'n cynrychioli tua 6-7% o allbwn GYC y rhanbarth sy'n dod i gyfanswm o tua £1.5bn bob blwyddyn. Er bod yr holl gynhwysion yma i greu 'clwstwr' – amcangyfrifir bod mwy na 60% o'r dyfeisiau a diagnosteg yn y rhanbarth yn cael eu mewnforio o Tsieina.

Mae P-RC wedi derbyn lefel uchel o gysylltiadau a chynigion gan gwmnïau gweithgynhyrchu Technoleg Feddygol ac arallgyfeirio. Cymeradwyodd Cabinet P-RC y Fframwaith Strategol Dyfeisiau a Diagnosteg yn ddiweddar ynghyd â diwydrwydd dyladwy cam cyntaf y Parc Gwyddorau Bywyd – y mae'r ddau ohonynt yn cefnogi'r datganiadau o ddiddordeb i UKRI ar gyfer Clwstwr Technoleg Feddygol. Gwelwyd ymateb enfawr gan fusnesau'n arallgyfeirio eu sylfaen gweithgynhyrchu i dechnoleg ac offer meddygol ac mae llawer mwy o gyfleoedd strategol i adeiladu arnynt. Mae pwysleisio ac atgyfnerthu pwysigrwydd y sector hwn drwy Fframwaith Buddsoddi P-RC yn arwydd pwysig o hybu aeddfedrwydd y sector hwn a chwarae i fanteision unigryw o ran: argraffu dyfeisiau 3D i'w defnyddio wrth weithio, mapio data ar gyfer rhagfynegi/atal, deunyddiau amgen ar gyfer dulliau hidlo gwarchodwyr wyneb, gweithgynhyrchu ocsigen yn hyfyw ac anfeddygol a gofod ystafell lân dros dro.

**BLAENORIAETH 8 – Sefydlogi busnesau allweddol.** Mae hyn yn ymwneud ag ymateb yn gyflym i anghenion busnesau yn ein clystyrau blaenoriaeth sy'n dechrau cwympo rhwng y craciau a lliniaru heriau mwy penodol a fydd yn helpu busnesau hyfyw i gyflawni'r cynaliadwyedd/parhad sydd ei angen i allu meddwl am dwf a mewnfuddsoddi eto. Y tu hwnt i ddarparu 'cyllid' – mae hyn yn ymwneud â mynediad at gyfalaf amyneddgar pwrpasol.

Mae 'ffyrdd allweddol y gallai P-RC helpu' yn y cam hwn o feithrin gwydnwch. Yr adborth cyffredinol gan fusnesau, ymgynghorwyr ariannol a chyfreithiol – yn ogystal â'r llywodraeth – yw:

- Gwyliau talu a seibiannau rhent a lleddfu beichiau llif arian
- Ystyried prynu ecwiti – y gellir ei wanhau dros amser neu ei drosglwyddo i ddyled wrth i fantolenni cwmnïau wella (ecwiti y gellir ei drosi)
- Ystyried y rôl bwysig y gellid ei chwarae gan warantau, cymorth cyfochrog, diogelwch a gefnogir gan asedau i bontio bylchau a helpu i liniaru'r posibilrwydd o risg lle mae gofynion bancio llymach yn berthnasol
- Potensial i baru mentrau ategol fel y Gronfa Parod at y Dyfodol
- Ystyried cyfranddaliadau Eiddo Deallusol a dealltwriaeth/deallusrwydd
- Ailosod rhai o'r metrigau – ni fydd llawer o ddefnydd i rai o'r metrigau perfformiad ariannol a ddefnyddir yn gyffredin yn yr amgylchedd newydd hwn. Bydd mwy o gydweithredu i nodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol tryloyw, realistig yn hanfodol bwysig a rhaid eu datblygu gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â dull newydd o Reoli Risg.
- Gellid rhoi mwy o bwyslais ar sgoriau Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddiad (ECLITDA) (neu gyfwerth) i asesu capasiti dyledion a chysyniad ECLITDA(c) i asesu sefydlogrwydd craidd cwmnïau
- Mwy o rôl i P-RC ac yn wir Fargeinion Dinesig eraill yn y cyfnod hwn. Rhaid i'r ffordd a'r cyflymder o weithio newid. Yn ystod y cyfnod hwn o atgyfodi – bydd yn amserol meddwl am sefydlu Asiantaeth Ddatblygu P-RC a ffyrdd o wella dilysrwydd democrataidd ar yr un pryd â defnyddio ysgogiadau a chyfleoedd newydd.

**Cam 3 - Adfer ac Atgyfodi.**

**BLAENORIAETH 9 – ADEILADU CLYSTYRAU DIWYDIANNOL HIRDYMOR** Nodir y ffocws uchelgeisiau i adeiladu clystyrau diwydiannol hyfyw a gwydn lle mae cysylltiadau, cydweithredu a chystadleuaeth yn galluogi'r ecosystem i ffynnu. Mae ein sail dystiolaeth ar gyfer cefnogi Data/Deallusrwydd Artiffisial, seilwaith, Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, Seiber, Technoleg Feddygol a Thechnoleg Ariannol yn gadarn. Mae'r diwydrwydd o ran potensial ar gyfer twf yn y dyfodol yn cael ei ddiweddaru'n barhaus ac mae arwyddion cynnar yn dangos y bydd angen ei gyflymu, os unrhyw beth, mewn byd ôl-COVID. Maent hefyd yn cynnig potensial i fynd i'r afael â heriau fel effaith aflonyddgar awtomeiddio, cymdeithas sy'n heneiddio ac ynni.

Ar gyfer yr atgyfodiad, bydd angen cronfeydd hadau i sbarduno cyrff clwstwr ffurfiol, gyda rhywfaint o flaenoriaethu'n cael ei roi i sut y gellir defnyddio arian a buddsoddiad i gefnogi eu cyfleoedd mewnfuddsoddi a Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor ac ochr yn ochr â chronfeydd fel Strength in Places. Bydd atgyfnerthu clystyrau drwy'r glasbrint o sgiliau, marchnata, meithrin cysylltiadau, Ymchwil a Datblygu cydweithredol a safleoedd strategol allweddol yn hollbwysig.

Yn ogystal â hyn, bydd adnewyddu'r economi sylfaenol mewn ffyrdd sy'n cysylltu â heriau a chyfleoedd yn y dyfodol a gwneud bwyd, ffermio, manwerthu a thwristiaeth yn addasol ac yn wydn yng ngoleuni grymoedd aflonyddgar Deallusrwydd Artiffisial a dysgu peirianyddol – fel na chaiff swyddi eu dadleoli na'u disodli – yn hanfodol. Gallai hyn hefyd helpu i sianelu cronfeydd 'adfer' llywodraeth y dyfodol yn ogystal â dull mwy penodol ar gyfer Cronfeydd Ffyniant a Rennir ac uchelgeisiau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Porth y Gorllewin.

**BLAENORIAETH 10 – GWELLA CYNHYRCHIANT CWMNÏAU CANOLIG** O ran gwella cystadleurwydd P-RC wrth i'r rhanbarth adfer o COVID-19, un o'r dulliau mwy penodol fyddai targedu'r sector cwmnïau canolig (tua 1300 o gwmnïau ledled y rhanbarth) sy'n cyflogi rhwng 50 a 249 o staff ar hyn o bryd. Mae'r grŵp hwn o gwmnïau yn perfformio'n waeth na'u cyfoedion yn y DU o ran trosiant fesul menter.
Gellid mynd i'r afael â'r tanberfformiad hwn drwy ddatblygu ymyriadau â ffocws megis mwy o gyfleoedd rhwydweithio rhwng Prif Swyddogion Gweithredol, rhannu arfer gorau a mynediad i raglen addysg weithredol lefel-uchel. Gallai hyn arwain at effaith sylweddol ar gyflogaeth a chreu cyfoeth yn P-RC. Pe bai'r grŵp hwn o fusnesau canolig yn perfformio ar yr un lefel â'u cyfoedion yn y DU, gallai trosiant blynyddol fod yn tua £10 biliwn gyda 52,000 o swyddi ychwanegol.

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol (2019/20): Goblygiadau COVID-19**

Mae rhan 3 paragraff 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso'r gwaith o arfer swyddogaethau'r corff hwnnw'n effeithiol a bod yn rhaid i gyrff gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn o effeithiolrwydd eu system rheolaeth fewnol (h.y. y DLlB)

Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad a atgyfeirir gael eu hystyried yn achos y Cyngor gan aelodau cyfarfod y corff yn ei gyfanrwydd neu gan bwyllgor.

Yn dilyn yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reolaeth fewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol.

Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad yn cyd-fynd ag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhaid iddo ei baratoi.

O ganlyniad i COVID-19 rydym yn disgwyl rhai newidiadau sylweddol posibl i'r cynnwys yn Natganiadau Llywodraethu Blynyddol cyrff eleni. Er na chafodd fframweithiau llywodraethu eu newid gan y pandemig tan wythnosau olaf y flwyddyn, mae'n hanfodol bod y newidiadau'n cael eu hadlewyrchu'n briodol. Y cwestiynau allweddol y byddwn yn eu hystyried yw:

**a. A yw'r datganiad yn nodi'r fframweithiau rheoli cyn y pandemig ac yn egluro'n glir beth sydd wedi newid mewn ymateb iddo?**

Mae Cabinet Rhanbarthol BDdPRC (y Cydbwyllgor) a'i drefniadau llywodraethu ategol wedi parhau i weithredu fel arfer i raddau helaeth ers cychwyn y pandemig ar ddechrau 2020. Ers cyflwyno cyfnod cloi'r llywodraeth (tua 3[edd] wythnos Mawrth 2020), cynhaliwyd y cyfarfodydd canlynol (fel ar y 15[fed] Mehefin), yn unol â chanllawiau a rheoliadau'n llywodraeth:

- 3 Chyfarfod Cabinet Ffurfiol (gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol);
- 2 Friff Cabinet;
- 4 Cyfarfod Panel Buddsoddi;
- 2 Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol (1 Briff ac 1 Cyfarfod Ffurfiol);
- 2 Gyfarfod Partneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol;
- 1 Cyfarfod Bwrdd CSC Foundry;
- 1 Cyfarfod Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Mae newidiadau sy'n deillio o'r pandemig yn ymwneud yn bennaf â pharatoi dogfen 'Blaenoriaethau P-RC ar gyfer Ymateb i COVID-19 a Thu Hwnt', a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynllun Twf Economaidd a'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd presennol. Cymeradwywyd y ddogfen hon gan y Cabinet Rhanbarthol yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2020.

**b. A yw'r datganiad yn cyfeirio at ganllawiau rheolydd allweddol sy'n cyfarwyddo neu'n effeithio ar newidiadau i fframweithiau rheoli a chydymffurfiaeth â hwy?**

Nid yw BDdPRC yn cael ei rheoleiddio megis diwydiant/gwasanaeth, felly nid yw'r datganiad hwn yn uniongyrchol berthnasol yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae'r ddogfen 'Blaenoriaethau P-RC ar gyfer Ymateb i COVID-19 a Thu Hwnt' wedi cael ei rhannu â chyllidwyr BDdPRC a Swyddfa Archwilio Cymru (ei Rheoleiddiwr Ariannol a Pherfformiad) fel rhan o'r broses DLlB.

Dyma'r meysydd allweddol y byddem yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys:

**c. A yw'r Cyngor neu'r Cyd-Gabinet wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n wahanol, gan gynnwys manylion pwyllgorau a dynnwyd yn ôl?**

Mae Cabinet BDdPRC wedi parhau i gyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'i brotocolau a'i fframweithiau llywodraethu sefydledig, sef; y Cytundeb Cydweithio a'i Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (derbyniwyd ei becyn cymorth ar gyfer arfarnu cynigion). Bu newid di-dor i gyfarfodydd digidol, sy'n golygu nad oes unrhyw bwyllgorau nac is-bwyllgorau wedi'u tynnu'n ôl. Mae'r ymateb i Gwestiwn a. uchod yn nodi manylion y cyfarfodydd sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod cloi fel ar y 15fed Mehefin 2020.

**d. Unrhyw hierarchaeth uwchgyfeirio ar gyfer gwneud penderfyniadau yn absenoldeb cyfranwyr allweddol.**

Ni fu hierarchaeth uwchgyfeirio ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae pob penderfyniad wedi dilyn y protocolau a'r trefniadau llywodraethu sefydledig fel yr amlinellir uchod. Ymgysylltwyd â phob Bwrdd a Grŵp sy'n cefnogi'r fframwaith penderfyniadau cytûn ar gynigion a wnaed drwy'r FfBY ers dechrau COVID-19, a nodwyd bod pob cyfarfod wedi bod yn 'gyfarfod rhithwir ac mewn rhai achosion, mae ymgynghori wedi digwydd drwy e-bost.'

**e. Sut mae gofynion deddfwriaethol allweddol megis cyfarfod yn gyhoeddus wedi'u bodloni?**

Mae Cabinet BDdPRC wedi cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020). Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

**f. A yw systemau rheolaeth fewnol wedi newid oherwydd gweithio o bell, a sicrwydd ynghylch eu digonolrwydd.**

Nid oes unrhyw systemau Rheolaeth Fewnol wedi newid o ganlyniad i COVID-19 a/neu o ganlyniad i staff yn gorfod gweithio gartref.

**g. Cwmpas archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglenni gwaith anghyflawn a sut/a gafwyd sicrwydd digonol ar gyfer y flwyddyn.**

Mae'r Archwiliad Mewnol arfaethedig wedi dechrau yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt ac mae'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

**h. Sut mae chwant risg wedi newid a sut risgiau newydd sy'n deillio o'r pandemig yn effeithio ar risgiau cyfredol, a sut maent yn cael eu rheoli?**

Gweler yr ymateb i Gwestiwn a. uchod. Er bod blaenoriaeth wedi'i rhoi i rai mentrau fel y'u nodir yn y ddogfen 'Blaenoriaethau P-RC ar gyfer Ymateb i COVID-19 a Thu Hwnt', mae lefelau goddefiant risg wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth. Mae'n ofynnol i bob cynnig fynd drwy'r broses FfBY a chwblhawyd y lefelau angenrheidiol o ddiwydrwydd dyladwy fel y gwneir fel arfer. Yn ei gyfarfod ar 18fed Mai, cymeradwyodd y Cabinet un cynnig ar y sail ganlynol:

*"O dan yr amgylchiadau digynsail hyn, mae amser yn hanfodol, ac mae'n hanfodol bod P-RC yn gweithredu'n gyflym er mwyn peidio ag oedi cyn datblygu'r cynnig hwn. Mae hyn yn cyfiawnhau proses gyflymach o wneud penderfyniadau yn P-RC, ac yn gwneud hynny'n angenrheidiol. Yn benodol, rydym yn bwriadu symud ymlaen yn uniongyrchol i ddatblygu ffurf gryno o'r Achos Busnes Terfynol. Cefnogir y dull hwn gan werth cymharol isel a natur syml yr ymyriad (h.y. benthyciad ad-daladwy tymor byr a danysgrifennir gan warant rhiant gwmni gan sefydliad ccc).*

*Mae'r Cytundeb Cydweithio yn darparu y bydd P-RC yn mabwysiadu dull achos busnes arfer gorau yn unol â Chanllawiau Llyfr Gwyrdd Pum Achos Trysorlys EM. Cydnabuwyd, fodd bynnag, y bydd yr ystod amrywiol o fathau, gwerthoedd a sectorau prosiectau a gwmpesir o fewn P-RC yn golygu bod angen diwygio'r Model Pum Achos ar 'sail gymesur i adlewyrchu graddfa, natur a chwmpas y Cais perthnasol'. Mae hyn yn rhan o'r ymarfer "Dull Cymesur o Ymdrin â'r Model Achos Busnes Pum Achos" y mae P-RC yn ei ddatblygu gyda Phartneriaeth Leol, Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM. Yn wir, mae Templed Achos Busnes Un Cam Llywodraeth Cymru eisoes yn cydnabod bod amrywiadau yn y dull o ymdrin â'r Model Pum Achos yn briodol o dan rai amgylchiadau. Mae eu gwefan, 'Achosion Busnes Gwell: Fframwaith Gwneud Penderfyniadau Buddsoddi' yn cynnig defnyddio dau amrywiad i'r model, un ar gyfer Gwerth Isel (o dan £250k) a'r llall ar gyfer Gwerth Canolig (£250k i £2m). Yn arwyddocaol, mae'r ddau yn argymell Cynnig Achos Busnes un cam wedi'i gwtogi ar gyfer gwneud penderfyniad ariannu (h.y. nid oes angen AAS nac ABA). Mae ein dull arfaethedig yma yn gyson â'r cyfeiriad teithio a dull gweithredu hwn a, chyda brys yr ymateb i COVID-19, gellir ei gyfiawnhau ar y sail honno.*

**i. Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gydymffurfiaeth ag unrhyw Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol?**

Nid yw cydymffurfiaeth wedi'i heffeithio o ran Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol BDdPRC. Mae'r ddogfen Blaenoriaethau P-RC ar gyfer Ymateb i COVID-19 a Thu Hwnt wedi'i datblygu a'i chymeradwyo drwy'r fframwaith gwneud penderfyniadau arferol ac mae'n eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Twf Economaidd a'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd, fel y nodir uchod.

**j. Effaith a chynnydd ar fanylion eraill sy'n ofynnol yn y datganiad e.e. cynllunio strategol, dyletswyddau cydraddoldeb ac ati.**

Yn bennaf, ni chafwyd unrhyw effaith. Mae cynllunio strategol wedi parhau yn y ffordd arferol a chydymffurfiwyd â'r holl ddyletswyddau cydraddoldeb.

**k. Casgliad: mae angen i adolygiad cyffredinol o effeithiolrwydd adlewyrchu a yw'r pandemig wedi arwain at faterion rheolaeth fewnol neu lywodraethu sylweddol ai peidio.**

Casgliad: nid yw'r pandemig wedi arwain at unrhyw fater rheolaeth fewnol sylweddol. Bu un enghraifft o gyfarfod y Panel Buddsoddi yn methu â chyrraedd cworwm oherwydd yr angen i fynychu cyfarfod brys Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Buddsoddi yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r pandemig presennol.

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol: Rheolaethau, Cymarebau a Chamau Gweithredu 2019/20**

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Mae gennym ac rydym yn cyfathrebu codau ymddygiad yn effeithiol er mwyn diffinio safonau ymddygiad ar gyfer aelodau a staff, ac mae gennym bolisïau ar gyfer ymdrin â chwythu'r chwiban a gwrthdaro buddiannau.**<br><br>Sgôr 2018/19<br><br>AMBR<br><br>**Sgôr 2019/20**<br><br>**GWYRDD/AMBR** | | | *Mae Cydbwyllgor BDdPRC yn dilyn Polisïau a Gweithdrefnau'r Corff Atebol, sy'n cynnwys, ymhlith materion eraill - Codau Ymddygiad Aelodau a staff a pholisïau chwythu'r chwiban a gwrthdaro buddiannau. Mae'r polisïau hyn wedi'u hategu gan gyngor gan y Corff Atebol yn ôl y gofyn, i sicrhau y gellir cymhwyso'r rhain i ofynion penodol y Cydbwyllgor. Ceir cyfeiriad penodol o fewn y Cytundeb Cydweithio at Godau Ymddygiad, a threfnir sesiynau sefydlu ar gyfer aelodau'r Cydbwyllgor (Cabinet Rhanbarthol) ar y materion hyn, o ystyried eu pwysigrwydd.*<br><br>*Pe bai digwyddiadau yn codi rhwng swyddogion (neu aelodau) ar draws y 10 Awdurdod Lleol parthed ymddygiad, mae pob swyddog (neu aelod) yn ddarostyngedig i godau ymddygiad ei awdurdod cyflogi. Byddai'r Corff Atebol bob amser yn ceisio helpu i ddod o hyd i ddatrysiad, a byddai'n fodlon cyfryngu pe bai hynny'n ddefnyddiol.*<br><br>*Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae'n bwysig bod statws cyflogaeth pob swyddog sy'n cefnogi'r Fargen Ddinesig yn glir, gan gynnwys nodi'r awdurdod cyflogi yn glir pan gaiff trosglwyddiadau/secondiadau staff eu cytuno. Cwblhawyd cam gweithredu yn hyn o beth gan y Corff Atebol yn 2018/19 (Ch 1).*<br><br>*Mae Codau Ymddygiad aelodau a staff a pholisïau chwythu'r chwiban a gwrthdaro buddiannau yn eu lle (gweler Datganiad Sicrwydd 3).*<br><br>*<u>Crynodeb o'r Camau a gymerwyd yn 2018/19 mewn perthynas â Datgan Buddiannau</u>*<br><br>*1. Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cabinet Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (10 Mehefin 2019);*<br>*2. Gohebiaeth ffurfiol at Aelodau a Grwpiau Ymgynghorol (5 Mehefin 2019);*<br>*3. Mae Datganiadau Buddiannau yn eitem safonol ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod P-RC ac mae'r cofnodion yn ceisio cofnodi natur unrhyw ddatganiadau a wneir;*<br>*4. Ffurflenni Datgan Buddiannau wedi'u cwblhau a'u lanlwytho i Wefan y Fargen Ddinesig.*<br><br>*<u>Camau pellach a gymerwyd yn 2019/20 (gan gynnwys ymateb i argymhellion SAC (a elwir bellach yn Archwilio Cymru) a nodwyd yn ei llythyr dyddiedig 19 Medi 2019)</u>*<br><br>***<u>Argymhelliad (i):</u> Atgoffa holl Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol mai eu cyfrifoldeb personol hwy yw sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau o dan God Ymddygiad Enghreifftiol yr Aelodau. Yn*** | <u>2019/20</u><br><br>Adolygu a diweddaru Datganiadau Buddiannau yn barhaus<br><br>Datblygu Polisi Buddsoddi Moesegol |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ***benodol, rhaid iddynt weithredu mewn ffordd sy'n dangos eu bod yn deall ac wedi ymrwymo i fodloni'r safonau ymddygiad uchel a ddisgwylir ganddynt.***<br><br>*Cyflwynodd Cyfarwyddwr P-RC a Swyddog Monitro'r Corff Atebol sesiwn friffio i'r Cabinet Rhanbarthol yn ystod y diwrnod Cynllunio Strategol ar 26 Hydref 2019, lle'r oedd 5 (ynghyd â 2 ddirprwy) o'r 10 aelod o'r Cabinet Rhanbarthol yn bresennol.*<br><br>*Cynhaliwyd sesiwn arall gyda 4 aelod (Y Cynghorwyr Daniels, Marsden, Moore ac O'Neil) ar 9 Mawrth 2020, tra cwblhaodd y Cynghorydd Thomas hyfforddiant ar-lein drwy'r Corff Atebol.*<br><br>*Mae nodiadau cyfarwyddyd ar "Y Cod Ymddygiad i Aelodau (Nodyn Briffio Buddiannau Personol a Rhagfarnllyd)" a "Siart Llif Datgan Buddiannau a dolenni i Ganllawiau'r Ombwdsmon" hefyd wedi'u dosbarthu i holl Aelodau'r Cabinet (5 Mehefin 2019).*<br><br>*Cynhaliwyd ymarfer cynhwysfawr ar gyfer 2020/21 i gasglu a diweddaru Datgeliadau Buddiannau ar gyfer pob Pwyllgor, Is-bwyllgor, Bwrdd a grŵp swyddogion allweddol P-RC. Defnyddiwyd ffurflenni wedi'u diweddaru sy'n ceisio nodi buddiannau ar sail ranbarthol, yn hytrach na lleol. Caiff yr ymarfer hwn ei olrhain drwy'r 'Gofrestr Datgan Buddiannau', sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol, megis: Dyddiad cyhoeddi/dychwelyd/lanlwytho'r ffurflen ar wefan y Fargen Ddinesig, dyddiadau unrhyw ddiwygiadau a gyflwynwyd, newidiadau i aelodaeth yn ystod y flwyddyn ac ati.*<br><br>*Ceir crynodeb o'r 'Gofrestr Datgan Buddiannau' yn Atodiad 2a. Mae hyn yn dangos, ar 9 Mehefin 2020, y cyflawnwyd cyfradd gydymffurfio o 100.0%(ffurflenni wedi'u cyhoeddi, eu dychwelyd a'u lanlwytho i'r wefan). Bydd nodyn atgoffa blynyddol o leiaf yn cael ei roi i bob Grŵp er mwyn sicrhau bod datganiadau'n parhau i fod yn gyfredol. At hynny, darperir diweddariadau blynyddol i'r Cabinet.*<br><br>***<u>Argymhelliad (ii):</u> Darparu hyfforddiant pellach i Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol mewn perthynas â sefyllfaoedd lle gallai buddiannau posibl effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o allu'r Aelodau Cabinet i wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd ac nid er budd personol na budd personol.***<br><br>*Mae 'Protocol Cod Ymddygiad' wedi'i baratoi a'i gytuno gan y 10 Swyddog Monitro ynghyd â manylion cyswllt SM pob awdurdod. Cytunwyd ar hyn ar 3 Mawrth 2020.* | |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *Cynhaliwyd sesiynau briffio gyda:*<br>*1. Partneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol – 16 Gorffennaf 2019 (Eitem 6);*<br>*2. Panel Buddsoddi – 19 Tachwedd 2019 (Eitem 11);*<br>*3. Bwrdd CSC Foundry – 15 Mai 2020 (Eitem 3);*<br>*4. Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol – 21 Mai 2020 (Eitem 9);*<br><br>***Argymhelliad (iii):* Pwysleisio'r angen i Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol hysbysu Swyddog Monitro'r Corff Atebol am unrhyw fuddiannau posibl ar yr un pryd ag y maent yn hysbysu Swyddog Monitro eu hawdurdod perthnasol.**<br><br>*Mae'r trefniadau hyn wedi'u nodi'n glir o fewn y Protocol y cytunwyd arno.*<br><br>***Argymhelliad (iv):* Sicrhau, lle mae trefniadau rhanbarthol neu Gydbwyllgor yn bodoli, bod digon o gyfathrebu rhwng Swyddog Monitro'r awdurdod a'r corff atebol fel ei fod yn fodlon bod cofrestru a datgan buddiannau aelodau yn briodol ac yn dryloyw. Felly, dylid diwygio'r Cytundeb Cydweithio i adlewyrchu hyn.**<br>*Mae'r trefniadau hyn wedi'u nodi'n glir o fewn y Protocol y cytunwyd arno.*<br>*Mae'r Cytundeb Cydweithio wedi'i ddiweddaru fel y nodir uchod ac mae gweithred amrywio wedi'i chymeradwyo gan bob un o'r 10 Awdurdod Lleol (cymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2019).*<br>*Camau eraill a gymerwyd/sy'n cael eu datblygu*<br><br>*1. Mae prosesau caffael yn gofyn i ddarparwyr gwasanaethau allanol e.e. Ymgynghorwyr Strategol ac ati weithredu'n onest ac yn unol â'r safonau moesegol a ddisgwylir gan y sefydliad (Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPPC) a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi);*<br>*2. Dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol – Polisi ar Fuddsoddiadau Moesegol i'w ddatblygu a'i gymeradwyo yn 2020/21. Cofnodwyd o adborth gan aelodau.* | |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **2** | **Rydym yn sicrhau:**<br><br>• **Cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau perthnasol;**<br><br>• **Cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau mewnol;**<br><br>• **Bod gwariant yn gyfreithlon.**<br><br>**<u>Sgôr 2018/19</u>**<br><br>**AMBR**<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**AMBR** | | | *Mae Cydbwyllgor BDdPRC yn dilyn Polisïau a Gweithdrefnau'r Corff Atebol, a ategir gan gyngor gan y Corff Atebol yn ôl y gofyn, i sicrhau y gellir cymhwyso'r rhain i ofynion penodol y Cydbwyllgor e.e. Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, Rheolau Sefydlog Contractau ac ati, y mae pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.*<br><br>*Mae nifer o 'brotocolau sy'n gysylltiedig â llywodraethu' wedi'u datblygu a'u cymeradwyo i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, tra bod gwaith diwydrwydd dyladwy yn ceisio sicrhau bod gwariant yn gyfreithlon. Mae Swyddog Monitro a Swyddog A151 (neu ddirprwyon a enwebir) yn bresennol ymhob cyfarfod Cydbwyllgor ac maent yn fodlon bod rheolaethau presennol yn lleihau'r risg o fynd i wariant anghyfreithlon. Mae Cyfrifon y Cydbwyllgor yn 2018/19 wedi'u cymeradwyo'n llawn.*<br><br>*Mae cymeradwyo a gweithredu'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY) wedi rhoi sicrwydd ychwanegol yn erbyn y Datganiad hwn ac felly hyder bod gwariant yn cydymffurfio â chyfreithiau, polisïau mewnol a gweithdrefnau perthnasol a bod gwariant yn gyfreithlon. Ceir rhagor o fanylion am y FfBY yn Natganiadau 5, 6 a 7 isod.*<br><br>*O ran y pandemig COVID-19 a oedd ar gynnydd tua diwedd y flwyddyn, gweithredodd P-RC yn gyflym ac yn unol â chyfreithiau a rheoliadau cymeradwy. Mae'r newid allweddol yn ymwneud yn bennaf â pharatoi dogfen 'Blaenoriaethau P-RC ar gyfer Ymateb i COVID-19 a Thu Hwnt', a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynllun Twf Economaidd a'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd presennol. Cymeradwywyd y ddogfen hon gan y Cabinet Rhanbarthol yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2020 ac mae wedi'i hatodi yn Atodiad 2b.*<br><br>*Mae cyfarfodydd monitro cyllideb yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn a chânt eu hadrodd yn ffurfiol i'r Cydbwyllgor ar adegau priodol. Mae goblygiadau cyfreithiol ac ariannol a ysgrifennir gan staff sy'n briodol gymwysedig wedi'u cynnwys ym mhob adroddiad i'w penderfynu i'r Cydbwyllgor. Caiff hyn ei ategu gan gyngor allanol fesul prosiect i sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau mewnol a bod gwariant yn gyfreithlon e.e. cyngor penodol a wneir ar Gymorth Gwladwriaethol ac ati.*<br><br>*Datblygwyd Rhaglen Waith yn ystod 2019/20 i helpu i gynllunio'r nifer fawr o gyfarfodydd sydd eu hangen er mwyn cefnogi penderfyniadau effeithiol h.y. Pwyllgorau, Is-bwyllgorau, Byrddau Cynghori a Grwpiau Swyddogion ac ati. Mae hyn wedi rhoi mwy o amlygrwydd i'r SFDd a'r Cabinet ar nifer y cyfarfodydd (a chymhlethdod y rhyngwynebau) y mae'n rhaid eu gwasanaethu er mwyn cydymffurfio â'r trefniadau llywodraethu presennol.* | <u>2019/20</u><br><br>Grŵp Gorchwyl a Gorffen SFDd, gan gynnwys recriwtio Rheolwr Busnes a Llywodraethu a Chymorth Gweinyddol |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *O ganlyniad, mae achosion o hyd lle darparwyd adroddiadau drafft heb fod digon o amser i'r sylwadau ysgrifenedig yn yr adroddiadau fod mor gynhwysfawr ag sy'n ddelfrydol. Mae pryder ynghylch amserlenni a chydymffurfiaeth â phrotocol llywodraethu y cytunwyd arno o ran paratoi adroddiadau ffurfiol.*<br><br>*Er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion hyn a gwella'r broses o wneud penderfyniadau ymhellach, mae Uwch Dîm Arwain SFDd wedi nodi'r angen i recriwtio Rheolwr Busnes a Llywodraethu i gymryd cyfrifoldeb am nifer allweddol o swyddogaethau. Yn ogystal, mae angen cryfhau cymorth swyddfa cyffredinol. Mae'r prosesau AD angenrheidiol i sefydlu a recriwtio i'r swyddi hyn ar y gweill. Yn y byrdymor, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Mai 2020. Gwnaed nifer o welliannau mewn cyfnod cymharol fyr. Mae'r rhain yn cynnwys: Blaengynlluniwr Agenda misol, Nodyn Proses Cylch Adrodd a Rhestr Wirio (cyn ac ar ôl penderfyniad), Materion a Log Gweithredu a Llyfrgell Adroddiadau Cabinet. Bydd y gwaith o gyflwyno'r pethau hyn yn ceisio lleihau rhai o'r problemau cyfredol a darparu llwyfan y gall y rolau newydd a nodir uchod adeiladu arno, ar ôl eu penodi.*<br><br>*Dylid nodi bod cyngor cyfreithiol ac ariannol ar gael ym mhob cyfarfod Cydbwyllgor a gellir ei geisio neu ei roi yn ôl y gofyn. Yn olaf, mae Asesiad Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyd-fynd â holl adroddiadau'r Cabinet, er mwyn helpu i weithredu'r Ddeddf.* | |
| **3** | **Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a gweithredu er budd y cyhoedd.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD/AMBR<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD/AMBR** | | | *Rydym yn cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Leol ar gyfarfodydd cyhoeddus a'n nod yw sicrhau y caiff cyfarfodydd gwneud penderfyniadau eu cynnal mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a'u bod yn agored i'r cyhoedd. Lle yr ystyrir bod gwybodaeth yn gyfrinachol, caiff y profion priodol eu cymhwyso a gwneir datgeliadau addas ar agendâu a gyhoeddir o fewn yr amserlenni rhagnodedig.*<br>*Mae BDdPRC yn dilyn polisïau'r Corff Atebol ar gyfer papurau cabinet a gweithdrefnau cysylltiedig. Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cofnodi a'u cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol, gyda'r cyhoeddiad a'r argaeledd llawn ar wefan BDdPRC.*<br><br>*Caiff agendâu a chofnodion cabinet eu cynhyrchu yn Gymraeg fel rheol ac mae pob adroddiad ac eitem ar gael yn Gymraeg ar gais. Cymhwysir y protocol hwn i bob polisi, strategaeth, cynllun a phapur ymgynghori ayyb. fel y gorfodir gan y rheoliadau. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu diweddaru'n barhaus i adlewyrchu'r arweiniad diweddaraf ac i sicrhau bod eglurder o ran y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a bod hygyrchedd yn glir i bawb.*<br><br>*At hynny, mae BDdPRC yn ceisio dangos ymrwymiad i fod yn agored a gweithredu er budd y cyhoedd fel a ganlyn:*<br><br>• *Drwy ddull cynhwysfawr o geisio, cofnodi a darparu ei Gofrestr Buddiannau (gweler Datganiad 1);*<br>• *Drwy Gyfathrebu ac Ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid allweddol (gweler Datganiad 4);* | <u>2019/20</u><br><br>Adolygiad parhaus o gyfarfodydd a phapurau ATRh a Chraffu ar y Cyd ar gael i'r cyhoedd drwy wefan P-RC |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • *Drwy ei 'Drefniadau Craffu ar y Cyd' sefydledig (gweler Datganiad 16).*<br><br>*Cyhoeddodd Archwilio Cymru ei adroddiad ar benderfyniad buddsoddi CSC Foundry ac mae'r Cabinet Rhanbarthol wedi ystyried y darganfyddiadau ac wedi cyhoeddi ei ymateb. Mae Rhaglen Waith 2019/20 yn cynnwys camau gweithredu perthnasol parthed yr 8 Gwers sy'n Codi o'r adroddiad hwnnw, tra bod y DLlB hwn yn ceisio ymgorffori darganfyddiadau ail adroddiad Archwilio Cymru – 'Adolygiad Trefniadau Llywodraethu BDdPRC' a gafodd ei gwblhau ym mis Mai 2019. Bydd y Fargen Ddinesig yn parhau i weithredu ar gynigion ar gyfer gwelliannau. Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a gweithredu er budd y cyhoedd.*<br><br>*Yn 2019/20 rhoddwyd ystyriaeth bellach i:*<br><br>*(1) Cylchdroi lleoliadau cyfarfodydd i helpu gyda hygyrchedd ar draws y rhanbarth a*<br>*(2) Gwe-ddarlledu cyfarfodydd Cabinet Rhanbarthol yn fyw.*<br><br>*Ar ôl ystyried yr uchod, daethpwyd i'r casgliad mai'r ateb yw dod o hyd i leoliad addas gyda chyfleusterau gwe-ddarlledu – wedi'i gydbwyso gyda lleoliad sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Caiff y gofyniad hwn ei gadw o dan adolygiad parhaus.* | |
| **4** | **Rydym wedi sefydlu sianeli cyfathrebu clir gyda phob rhan o'r gymuned a chyda rhanddeiliaid eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac annog ymgynghori agored.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>AMBR/COCH | | | *Mae BDdPRC wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith gyda'r nod o sefydlu 'sianeli cyfathrebu clir' ac 'annog ymgynghori agored'. Mae'r rhain yn cynnwys:*<br><br>• *Rheoli sylw rheolaidd yn y wasg drwy drefniant gyda chwmni cyfathrebu allanol;*<br>• *Ail-lansio gwefan gan fesur, monitro ac adrodd ystadegau allweddol;*<br>• *Presenoldeb yn Wythnos Cymru yn Llundain, gyda sylw cysylltiedig yn y wasg a'r cyfryngau;*<br>• *Presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol ar y cyd â'r Cyngor Busnes Rhanbarthol ac ystod o gwmnïau sy'n gweithredu yn y rhanbarth.*<br><br>*Yn 2019/20 rhoddwyd ystyriaeth bellach i effeithiolrwydd cyfathrebu â'r 10 awdurdod partner hyd yma, ac mewn tro sut mae awdurdodau lleol yn cyfathrebu'r 'Fargen Ddinesig' i'w cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys tân, iechyd, 3ydd sector ac ati). Ystyrir bod hyn yn allweddol i sicrhau atebolrwydd ac annog ymgynghori agored.*<br><br>*Er mwyn mynd i'r afael â'r pwynt hwn, cytunwyd ar gyfres o amcanion cyfathrebu strategol ynghyd â strategaeth briodol ar gyfer eu gweithredu. Mae cynllun cynnwys treigl misol ar waith sy'n cynnwys colofnau golygyddol gyda phobl allweddol yn y rhanbarth, erthyglau arwain agweddau ar faterion cyfoes, erthyglau sy'n benodol i'r sector/diwydiant blaenoriaeth, diweddariadau ar benderfyniadau bargen* | <u>2019/20</u><br><br>Adolygiad o wefan BDdPRC a'i chynnwys yn 2020/21 |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | **<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD/AMBR** | | | *ddinesig neu ddatganiadau cysylltiadau cyhoeddus a nodweddion proffilio cwmnïau BDdPRC sy'n dangos cyflawniadau/llwyddiannau rhanbarthol.*<br><br>*Mae'r cynnwys wedi'i ysgrifennu i'r cyhoedd ac fe'i dosberthir drwy lwyfan newyddion BDdPRC penodol a ddarperir gan Newyddion Busnes Cymru. Mae'r holl gynnwys yn cael ei ddiweddaru yn yr un modd ar wefan BDdPRC, a chyfeirir ato drwy sianeli cymdeithasol, gan gynnwys Facebook, sy'n ychwanegiad diweddar. Mae holl gynnwys perthnasol yr awdurdod lleol wedi'i dagio iddynt ac yn cael ei roi'n uniongyrchol iddynt i'w ail-bwrpasu. Ceir rhagor o fanylion o dan Ddatganiad 5.*<br><br>*Er y cynhaliwyd adolygiad rhannol a gwaith uwchraddio ar wefan BDdPRC yn ystod 2019/20, cydnabyddir bod angen gwella'r wefan ymhellach. Mae disgwyl i hyn ddigwydd yn 2[il] hanner 2020. Bydd gwelliannau pellach yn cael eu gwneud gyda'r nod o ddarparu mwy o wybodaeth ar lefel ronynnol am y llif o brosiectau sy'n cael eu datblygu ac sy'n symud drwy'r FfBY. Bydd hyn yn cynnwys mwy o dryloywder a manylion am y broses ceisiadau buddsoddi a ffordd lawer cliriach o gategoreiddio a dod o hyd i'r nifer sylweddol o ddiweddariadau newyddion sydd bellach ar y wefan. Bydd y broses we-lywio gyffredinol yn cael ei gwella ymhellach AC fe fydd hi'n haws dod o hyd i bapurau a gynhyrchir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a dogfennau mwy generig P-RC/y Fargen Ddinesig e.e. cynlluniau busnes, y cynllun diwydiannol ac economaidd a chyhoeddiadau fel Cysylltiedig, Cystadleuol a Gwydn.*<br><br>*Mae nifer o grwpiau swyddogion ar waith, sy'n cyfarfod i drafod a datrys materion gweithredol allweddol. Er enghraifft Bwrdd y Rhaglen, Grŵp Swyddogion A151 (ac Is-grŵp Technegol), Grŵp Swyddogion Cymheiriaid ar gyfer Materion Trafnidiaeth.*<br><br>*Mae'r grwpiau/cyrff cynghori e.e. Partneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol (PTER), yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol (ATRh) ac ati wedi bod yn gweithredu ers peth amser bellach ac ymgynghorir â hwy ar gynigion FfBY ac unrhyw faterion perthnasol eraill. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r berthynas waith a dealltwriaeth gyda'r Bwrdd Partneriaeth Sgiliau, tra bod adolygiad yn cael ei gynnal ar rôl a phwrpas y Cyngor Busnes Rhanbarthol. Gellir dod o hyd i ragor o waith ar ddatblygu'r berthynas waith gyda'r cyrff hyn o dan Ddatganiad 20 yn y ddogfen hon.*<br><br>*Mae trefniadau ar waith ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd, ymgynghoriadau a chyfnewid gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, SQW (sy'n arwain asesiad yr Adolygiad Gateway) a chyda Swyddfa Archwilio Cymru. Fel rhan o'i adolygiad, mae SQW yn cynnal cylchoedd ailadroddol o gyfweliadau rhanddeiliaid allweddol i gasglu 'tystiolaeth effaith' ac asesu 'datblygiad capasiti sy'n dod i'r amlwg a thystiolaeth gwerthuso partneriaethau'.* | |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *Yn olaf, caiff asesiadau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol eu cynnal a'u hatodi i bob adroddiad cyhoeddus. Cynhelir deialog gyda swyddfa'r Comisiynydd ynghylch datblygiadau allweddol BDdPRC a'i hesblygiad naturiol.* | |
| 5 | **Rydym wedi datblygu a chyfathrebu gweledigaeth, sy'n nodi canlyniadau a fwriedir ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth, a ddefnyddir fel sail ar gyfer cynllunio.**<br><br>Sgôr 2018/19<br><br>GWYRDD<br><br>**Sgôr 2019/20**<br><br>**GWYRDD** | | | *Cytunwyd ar Gynllun Busnes y Cytundeb Cydweithio 5 mlynedd gan y Cabinet Rhanbarthol ac fe'i mabwysiadwyd gan bob un o'r 10 Cyngor ym mis Mawrth 2018 ac mae'n gosod y weledigaeth, nodau ac amcanion.*<br><br>*Mae cymeradwyo'r Cynllun Busnes Blynyddol yn trosi Cynllun Busnes y Cytundeb Cydweithio 5 mlynedd yn Rhaglen Waith ddiriaethol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cafodd fformat newydd ei fabwysiadu yn 2019/20 ar gyfer Adroddiadau Perfformiad Chwarterol yn erbyn y Rhaglen Waith flynyddol, sy'n rhoi'r mecanwaith ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn eitemau a chamau gweithredu unigol y Rhaglen Waith drwy gydol y flwyddyn.*<br><br>*Mae'r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Rhanbarthol yn enghraifft allweddol o sut cafodd gweledigaeth y Fargen Ddinesig a'i ganlyniadau a fwriedir eu cyfathrebu i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Cynllun yn cynnig syniad clir o gyfeiriad, wedi'i ffurfio gan ddiwydiant a busnes ac wedi'i ategu gan gronfa tystiolaeth gyfredol. Parhawyd â'r gwaith dadansoddi sectoraidd a wnaed fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun drwy 2019/20 a'i droi'n dri chyhoeddiad BDdPRC allweddol: 'Cysylltiedig', 'Cystadleuol' a 'Gwydn'. Rhaid adolygu'r cynllun ei hun yn rheolaidd gan fod ffactorau economaidd a chymdeithasol yn newid yn gyflym ac yn ddeinamig.*<br><br>*Yn 2019/20 cymeradwywyd a lansiwyd y Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY) a'r Prosbectws cysylltiedig. Mae'r FfBY yn ganolog, a bydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith a wnaed hyd yma, o ran cynllunio a chyflawni'r Cronfeydd Buddsoddi Ehangach. Bydd hyn yn helpu gyda chynllunio canlyniadau gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned fusnes ehangach mewn golwg. Mae agwedd allweddol ar y gwaith a ddatblygwyd yn ystod 2019/20 yn ymwneud ag amcanion 'Cynhwysiant Economaidd' BDdPRC ac mae'r Gronfa Dai gymeradwy yn enghraifft o sut y bydd yr amcan hwn yn gweithio ochr yn ochr ag amcanion masnachol i sicrhau bod cynigion yn bodloni dyheadau gwleidyddol aelodau'r Cabinet Rhanbarthol ar gyfer eu cymunedau.*<br><br>*Mae cynnydd yn erbyn y gweledigaeth BDdPRC, sy'n nodi'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth, yn cael ei gyfleu yn y ffyrdd canlynol:*<br><br>*1. Mae'r wefan yn cynnwys ystod o ddogfennau cyhoeddedig sy'n mynegi:*<br>• *Y bwriad strategol tymor hwy sydd fwyaf nodedig yn y cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd. DS: Erbyn hyn mae hwn yn cynnwys atodiad sy'n mynegi'r argymhellion ôl-COVID-19 a 10 maes* | 2019/20<br><br>Yn destun adolygu parhaus |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *blaenoriaeth o ffocws. Dylanwadodd ymarfer ymchwil a gynhaliwyd gyda Caerdydd AM BYTH ar ddiwedd mis Mawrth 2020 ar yr atodiad hwn i asesu effaith uniongyrchol COVID-19 ar gymuned fusnes P-RC;*<br>• *Uchafbwyntiau/cyflawniadau allweddol 2019 mewn diweddariad hawdd ei ddarllen ar ffurf cylchlythyr;*<br>• *Cynllun busnes gorwel 12 mis ar gyfer 2020/21 sy'n rhannu'r cynllun tymor hwy yn gynllun gweithgarwch blynyddol;*<br>• *Cyfres o ddogfennau "Cyflwr y Rhanbarth" sy'n cyfleu'r "cyflwr chwarae" rhanbarthol presennol yn erbyn 3 philer sylfaenol y Cynllun Diwydiannol ac Economaidd – Cysylltiedig, Cystadleuol a Gwydn. Mae'r rhain yn gweithredu fel llinell sylfaen ar gyfer asesu gwelliannau dros amser a darparu cyd-destun ychwanegol i'r broses o wneud penderfyniadau buddsoddi;*<br><br>2. *Mae'r holl ddogfennau hyn wedi'u hysgrifennu mewn cyhoeddiadau ar ffurf erthygl, ac yn achos cyhoeddiadau Cyflwr y Rhanbarth yn amodol ar bodlediad 30 munud i helpu i ddod â'r negeseuon yn fyw mewn fformat treuliadwy;*<br>3. *Mae'r holl gyhoeddiadau y cyfeirir atynt uchod, h.y. dadelfennu dogfennau strategol yn nodweddion cryno a ysgrifennir i apelio at, a bod yn dreuliadwy i'r gynulleidfa fusnes a chymunedol, wedi'u lanlwytho ar wefan P-RC ac wedi bod yn destun gweithgarwch sylweddol yn y cyfryngau cymdeithasol;*<br>4. *Yn ogystal, bob chwarter, ar ffurf cylchgrawn, mae'r holl erthyglau chwarteri/datganiadau i'r wasg/diweddariadau a nodweddion diwydiant yn cael eu curadu i mewn i un cyhoeddiad a ddosberthir i gynulleidfa eang gan gynnwys yr ALlau a phob corff allweddol o randdeiliaid. Maent hefyd ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan;*<br>5. *Mae'r adborth hyd yma ar gwantwm ac ansawdd ein deunydd yn gadarnhaol* | |
| **6** | **Rydym wedi trosi'r weledigaeth i gamau gweithredu ar gyfer ein swyddogaeth, ei phartneriaethau a chydweithrediadau.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD | | | *Mae cymeradwyo'r Cynllun Busnes Blynyddol yn trosi Cynllun Busnes 5 mlynedd y Cytundeb Cydweithio yn Rhaglen Waith ddiriaethol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cafodd fformat newydd ei fabwysiadau yn 2019/20 ar gyfer Adroddiadau Perfformiad Chwarterol yn erbyn y Rhaglen Waith flynyddol, sydd hefyd yn rhoi'r mecanwaith ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y nodau y cytunwyd arnynt drwy gydol y flwyddyn.*<br><br>*Fel yr amlinellir yn Natganiad 5 – mae'r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Rhanbarthol yn trosi gweledigaeth y Fargen Ddinesig yn gamau gweithredu ar gyfer y Cydbwyllgor, ei is-bwyllgorau, partneriaethau a byrddau cynghori. Mae'r cynllun yn cynnig syniad clir o gyfeiriad, wedi'i ffurfio gan ddiwydiant a busnes, ac mae wedi'i danategu gan gronfa tystiolaeth gyfredol (Dadansoddiad Sectoraidd a gomisiynwyd ar ddiwedd 2018 a thrwy lawer o 2019/20).*<br>*Fel yr amlinellir yn Natganiad 2 uchod, arweiniodd y pandemig COVID-19, a waethygodd tua diwedd 2019/20, at baratoi'r ddogfen 'Blaenoriaethau P-RC ar gyfer Ymateb i COVID-19 a Thu Hwnt'. Bydd hyn* | <u>2019/20</u><br><br>Yn destun adolygu parhaus |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | <u>**Sgôr 2019/20**</u><br><br>**GWYRDD** | | | *yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd, y Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd a'r swyddogaeth cynllunio busnes flynyddol i drosi gweledigaeth BDdPRC yn gamau gweithredu ar gyfer ei swyddogaeth, partneriaethau a chydweithrediadau. Mae'r ddogfen BDdPRC wedi'i chyflwyno i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i effaith economaidd COVID-19 ar economi Cymru.*<br>*Er mwyn deall a dylanwadu ymhellach ar y maes polisi yng Nghymru, mae BDdPRC wedi ymateb i'r ymgynghoriad Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, sydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i Bwyllgor Dethol Llywodraeth y DU ar Faterion Cymreig ym mis Mai 2020.*<br><br>*Mae'r FfBY wedi bod yn gweithredu ers tua 10 mis a bwriedir cynnal 'adolygiad 1 flynedd' ar ddiwedd yr haf i asesu ei effeithiolrwydd ac i bennu'r cyfeiriad ar gyfer y 12 mis nesaf. Gwneir hyn yng nghyd-destun ceisio deall sut y gallai'r dyfodol newydd edrych o ran effaith y pandemig COVID-19, ond hefyd wrth i waith partneriaethau a chydweithrediadau presennol gael ei adolygu (y Cyngor Busnes Rhanbarthol) ac wrth i bartneriaethau gael eu creu (Porth y Gorllewin).*<br><br>*Mae Datganiad 5 uchod yn nodi sut y caiff y gwaith hwn ei gyfleu'n glir i'r gwahanol bartneriaethau a chydweithrediadau.* | |
| **7** | **Mae gennym fecanweithiau ar waith i adolygu effeithiolrwydd y fframwaith gwneud penderfyniadau, gan gynnwys trefniadau dirprwyo, gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth, gwybodaeth a ddarparwyd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chadernid ansawdd data.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u> | | | *Mae cwblhau a chymeradwyo profforma'r DLlB, a wneir gan y rhai sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu BDdPRC a'r Cynllun Gweithredu dilynol ac yn eu cefnogi, yn dangos bod mecanwaith ar waith ar gyfer adolygu effeithiolrwydd.*<br>*Cafodd y Fframwaith Sicrwydd ei dderbyn gan Lywodraethau Cymru a'r DU ac mae'n rhaid i bob cynnig buddsoddi gydymffurfio â'r Fframwaith Sicrwydd, tra bod yr Adolygiadau Gateway 5 mlynedd yn gweithredu fel mecanwaith ar gyfer herio ac adolygu penderfyniadau a wnaed a chanlyniadau a gyflawnwyd. Mae cyfarfodydd cysylltu chwarterol gyda Llywodraethau Cymru a'r DU ar waith.*<br><br>*Mae'r uchod yn cael ei ategu gan y Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY), sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod traws-ddarllen clir rhwng y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Twf Diwydiannol (ac yn fwy diweddar y ddogfen Blaenoriaethau P-RC ar gyfer Ymateb i COVID-19 a Thu Hwnt) a'r prosiectau a ddewisir i fynd i mewn i'r FfBY. Yn gyntaf, mae'r FfBY yn cyflawni proses hidlo neu ridyllu (Cam 1A) i asesu 'Ffit Strategol' ac os bernir ei bod yn 'briodol', mae cynigion wedyn yn symud i broses asesu ffurfiol y FfBY.*<br><br>*Mae'r broses ar gyfer asesu'n gadarn, yn annibynnol ac yn cynnwys diwydrwydd dyladwy a chymhwyso'r model pum achos yn gymesur. Mae yna lwybr clir a threfniadau adrodd i Banel Buddsoddi sydd â'r rôl o brofi, herio a chraffu ar gynigion a chynnydd dilynol. Mae'r Panel Buddsoddi yn gwneud argymhellion i'r Cabinet Rhanbarthol, sy'n parhau i fod yn gorff gwneud penderfyniadau. Mae SQW Ltd - ymgynghorydd* | <u>2019/20</u><br><br>Yn destun adolygu parhaus |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | GWYRDD/AMBR<br><br>**Sgôr 2019/20**<br><br>**GWYRDD** | | | *Llywodraeth y DU ar yr Adolygiad Gateway - wedi cydnabod a thynnu sylw at weithrediad y FfBY fel un arwyddocaol. Ystyriwyd adroddiadau sylfaenol a fframwaith gwerthuso lleol BDdPRC gan y Cabinet Rhanbarthol yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2019, gyda'r Adroddiad Un Flwyddyn Allan yn cael ei ystyried ym mis Mai 2020.*<br><br>*Mae gwaith nawr wedi'i gwblhau i greu cyfres o fesurau ar gyfansoddiad economaidd a chymdeithasol a pherfformiad y rhanbarth, yn ogystal â gwaelodlin y gellir asesu perfformiad y dyfodol yn ei erbyn. Bydd y data dadansoddi sectoraidd hwn yn llywio'r Adolygiad Gateway ac yn hwyluso penderfyniadau mwy effeithiol, trwy ddealltwriaeth well o gryfderau'r rhanbarth, a'r cyfleoedd sy'n bodoli i wneud ymyriadau strategol sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf. Fel yr amlinellir uchod, cyhoeddwyd y gwaith hwn fel 3 dogfen allweddol ('Cysylltiedig', 'Cystadleuol' a 'Gwydn').*<br><br>*Mae'r FfBY cymeradwy'n cynnwys rôl a mewnbwn clir ar gyfer y PTER, y Panel Buddsoddi a'r Bwrdd Rhaglen. Mae hefyd yn darparu'r pyrth penderfynu allweddol ar gyfer y Cabinet Rhanbarthol. Fel yr amlinellwyd uchod, bydd effeithiolrwydd y FfBY yn cael ei adolygu ddiwedd haf 2020. Ymhlith mesurau effeithiolrwydd eraill, bydd yr adolygiad yn ystyried:*<br><br>• *Asesiad o sut mae FfBY yn helpu wrth fwrw Targedau'r Fargen Ddinesig o ran Swyddi, Trosoledd, GYC a chanlyniadau ehangach y Fargen Ddinesig;*<br>• *Adolygiadau ac asesiadau SQW;*<br>• *Adolygiad Gateway (ardystiad LlC a Thrysorlys EM);*<br>• *Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol*<br><br>*Bydd y broses o 'ymsefydlu' y swyddogaeth Craffu ar y Cyd yn ystod 19/20 yn cyflwyno mecanwaith arall ar gyfer adolygu a herio penderfyniadau (gweler Datganiad 16).*<br><br>*O ran effeithiolrwydd y gweithgaredd cyfathrebu; yn dilyn creu cynllun cyfathrebu strategol - mae'r canlyniadau yn Ch4 2019/20 fel a ganlyn:*<br><br>*1. Cynhyrchwyd, dosbarthwyd a hyrwyddwyd:*<br>• *8 podlediad;*<br>• *9 darn barn/arwain agweddau'r "Bwrdd";*<br>• *8 nodwedd sy'n benodol i'r diwydiant;*<br>• *7 datganiadau newyddion gan gynnwys 3 i'r cyfryngau cyfan;*<br>• *3 llyfryn – Cysylltiedig, Cystadleuol, Gwydn;* | |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *2. O gymharu â'r chwarter blaenorol, cyflawnwyd:*<br>• *Cynnydd o 50% yn y traffig cyffredinol o ran ymwelwyr â'r wefan;*<br>• *Cynnydd o 130% mewn traffig i'n tudalennau newyddion;*<br>• *Cynnydd o 167% o ran ymgysylltu â'n cyfrif Twitter;*<br>• *Cynnydd o 100% mewn dilynwyr Linked In;*<br>• *Cynnydd o 290% o ran ymgysylltu â'n cyfrif Linked In;*<br><br>*3. Ymatebodd BDdPRC i COVID-19 a'n harolwg Effeithiau Busnes drwy:*<br>• *Lansio adran we COVID-19 bwrpasol gyda Cwestiynau Cyffredin, dolenni defnyddiol a nodiadau canllaw;*<br>• *Postio diweddariadau allweddol bob dydd drwy sianeli cymdeithasol;*<br>• *Newid ffocws y cyfryngau i sicrhau dimensiwn COVID i'r holl waith arwain agweddau a nodweddion diwydiant, gan gynnwys cyfres proffil ymatebion corfforaethol i COVID yn ein sectorau allweddol;*<br><br>*4. Ac yn olaf, cyfrannodd at gynhyrchu prosbectws buddsoddi P-RC ar gyfer MIPIM. Y bwriad yw ailgyhoeddi'r prosbectws hwn i'w ddefnyddio'n gyffredinol maes o law.* | |
| **8** | **Rydym yn mesur perfformiad gwasanaethau a phrosiectau perthynol ac yn sicrhau y cânt eu darparu yn unol â chanlyniadau a ddiffiniwyd a'u bod yn cynrychioli defnydd gorau o adnoddau a gwerth am arian.**<br><br>Sgôr 2018/19<br><br>GWYRDD/AMBR | | | *Er bod y Fargen Ddinesig yn aeddfedu ac yn cryfhau ei threfniadau gweithio drwy'r amser, mae'n dal i fod ar gam datblygu cynnar i raddau. Yn 2019/20, cymeradwywyd Achosion Busnes Llawn mewn perthynas â'r Rhaglen Graddedigion a'r Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai. Yn ogystal, mae nifer o brosiectau Metro+ yn dechrau tynnu cyllid i lawr, tra bod CSC Foundry yn parhau drwy ei gam 'cyflenwi a gweithredu'.*<br><br>*Fel y nodir yn Natganiad 7 uchod, mae'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY) yn ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect fynd trwy broses datblygu achos busnes ffurfiol a bydd yr asesiad ariannol sy'n cael ei wneud fel rhan o'r broses honno yn ystyried materion megis cyflawnadwyedd, gwerth am arian a chydymffurfio â thelerau ac amodau cyllid. Er enghraifft, bydd datblygu achos busnes yn helpu trwy ddisgrifio'n glir 'fuddion' pob cynnig a bydd yr achos rheoli yn rhestru'r strategaeth gwireddu buddion yn glir, tra bod y trefniadau monitro ac arfarnu yn mesur ac yn asesu allbynnau a chanlyniadau diffiniedig pob prosiect.*<br><br>*Cafodd lefel adnoddau briodol (capasiti a gallu) ei nodi er mwyn cefnogi'r gweithgareddau hyn. Mae cyfarfodydd rheolaidd bob deufis gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, wedi'u hategu gan y broses Adolygiad Gateway 5 mlynedd, yn ychwanegu mecanweithiau herio ac adolygu priodol. Parthed hynny,* | 2019/20<br><br>Datblygu mecanweithiau Gwerthuso ac Adrodd priodol ar gyfer Prosiectau sydd ar y Cam Cyflawni |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | **<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD/AMBR** | | | *cydnabuwyd ac amlygwyd y Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Rhanbarthol a'r FfBY fel nodweddion arwyddocaol gan SQW yn ei adroddiadau a fframwaith arfarnu lleol.*<br><br>*Caiff Adroddiadau Perfformiad Chwarterol eu cyflwyno i'r Cabinet Rhanbarthol a byddant yn darparu diweddariad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes a'r Rhaglen Waith Flynyddol. Yn benodol, mae'r adroddiad yn ymwneud â'r sefyllfa yn erbyn y:*<br><br>*1. Cerdyn Sgorio Cydbwysedd;*<br>*2. Model Rhesymeg y Fargen Ddinesig a gytunwyd gyda SQW;*<br>*3. DLlB a Chynlluniau Gweithredu Archwilio Mewnol;*<br>*4. Sefyllfa ariannol y Gronfa Fuddsoddi Ehangach.*<br><br>*Mae Swyddfa'r Fargen Ddinesig yn monitro ac arfarnu'n barhaus fformat, perthnasedd a defnyddioldeb y wybodaeth a ddarperir i'r Cabinet Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill ac yn ceisio datblygu ei mecanweithiau adrodd yn barhaus, wrth i'r Fargen Ddinesig esblygu. Er enghraifft, wrth i nifer y prosiectau a gymeradwyir o dan y FfBY gynyddu, bydd angen mwy o bwyslais (a dyrannu adnoddau) ar adrodd yn erbyn swyddogaeth 'Monitro ac Adolygu' pob prosiect. Yn benodol, yr angen i gofnodi cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwireddu Buddion a chymryd camau unioni lle mae prosiectau'n syrthio y tu ôl i'w cynlluniau buddion disgwyliedig.* | |
| **9** | **Rydym wedi diffinio a dogfennu rolau a chyfrifoldebau aelodau a rheolwyr, gyda phrotocolau clir ar gyfer cyfathrebu clir parthed y trefniadau awdurdod a phartneriaeth.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD/AMBR<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>** | | | *Mae'r Cytundeb Cydweithio yn rhestru rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion gan gynnwys rolau Swyddog A151 a Swyddog Monitro. Caiff hyn ei ategu gan nifer o 'brotocolau gwaith' y cytunwyd arnynt gan y 10 Awdurdodau Lleol partner a thrwy ddatblygu Cylchoedd Gorchwyl clir ar gyfer y gwahanol Grwpiau/Byrddau ac ati sydd wedi'u sefydlu. Yn ogystal, manylir ymhellach ar rôl a chyfrifoldebau'r Corff Atebol drwy amrywiaeth o CLGau, y cytunir arnynt yn flynyddol ac sy'n nodi'n glir lefel y cymorth a ddarperir.*<br><br>*Mae gweithrediad y FfBY wedi arwain at drefniadau gweithio gwell, cryfhau partneriaethau a chysoni llif a threfn y rhain er mwyn adlewyrchu natur busnes yn well a sut y mae angen ei wneud, sydd wedi bod yn nodweddion allweddol o'n gwaith yn 19/20. Mae hyn eto'n adlewyrchu dyfodiad rhai pwyntiau aeddfedu megis gweithredu'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd, ail-lunio Bwrdd y Rhaglen a sefydlu a gweithredu'r Panel Buddsoddi.*<br><br>*Bydd 'Gwaith sy'n Gysylltiedig â Llywodraethu' arall, yn bennaf gwaith y swyddogaeth Archwilio Mewnol, yn ceisio asesu effeithiolrwydd y trefniadau cyfredol sydd ar waith ac amlinellu unrhyw gyfleoedd gwella wrth symud ymlaen. Yn ogystal, cynhelir deialog ag Archwilio Allanol drwy gyfarfodydd cyswllt rheolaidd.* | <u>2019/20</u><br><br>Yn destun adolygu parhaus |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | **GWYRDD** | | | *O ran 'protocolau clir ar gyfer cyfathrebu effeithiol', mae'r manylion wedi'u nodi yn Natganiadau 4, 5 a 7 uchod. Yn ogystal â'r pwyntiau hynny, mae'n werth nodi:*<br><br>• *Bod perthynas waith dda yn bodoli rhwng tîm cyfathrebu mewnol SFDd a chyrff partneriaeth, yn fwyaf nodedig y Bartneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol, sydd wedi cael sylw rheolaidd yn ein cyhoeddiadau arwain agweddau;*<br>• *Y bydd yr un egwyddor yn berthnasol i'r Cyngor Busnes yn dilyn ei ailsefydlu;*<br>• *Bod tîm SFDd yn bresennol yn holl gyfarfodydd yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol ac y cynhyrchwyd diweddariadau i'w dosbarthu i'r cyfryngau yn dilyn pob cyfarfod;*<br>• *Y ceir deialog rheolaidd gyda'r tîm sgiliau Rhanbarthol i nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin a gorgyffwrdd ac i rannu dysgu. Y bwriad tymor hwy yw cydweithio ar gynhyrchu cynllun cyfathrebu integredig;*<br>• *Y bydd gan unrhyw gytundebau partneriaeth/nawdd ychwanegol a gymeradwyir gynllun cyfathrebu llawn cysylltiedig e.e. Cymraeg Byd-eang, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac ati.* | |
| **10** | **Mae ein trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn cydymffurfio â phob gofyniad deddfwriaethol ac arfer gorau perthnasol.**<br><br>Sgôr 2018/19<br><br>GWYRDD<br><br>**Sgôr 2019/20**<br><br>**GWYRDD/AMBR** | | | *Mae ein trefniadau rheoli ariannol yn cydymffurfio â phob gofyniad deddfwriaethol ac arfer gorau perthnasol. Cafodd y cylch cyllidebu llawn (pennu cyllideb, monitro a chau cyfrifon) ei gwblhau yn unol â dyddiadau cau statudol a mewnol.*<br><br>*Cynhaliwyd cyfarfodydd monitro cyllidebau yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ac adroddwyd yn ffurfiol amdanynt i'r Cabinet Rhanbarthol ar adegau priodol. Darperir cyngor ariannol ffurfiol ar bob adroddiad cyhoeddus i'r Cabinet Rhanbarthol a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae amrywiaeth o CLGau ar waith, sy'n amlinellu'r cymorth a'r gwasanaethau rheoli ariannol a gaiff eu darparu drwy gydol y flwyddyn, gyda'r CLG i gael ei adolygu yn ystod 2020/21.*<br><br>*Mae perthynas waith agos wedi'i chynnal gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn sicrhau y cyfrifir yn briodol am wariant y Fargen Ddinesig o dan y pwerau deddfwriaethol perthnasol hyn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol fel y cymeradwyir pob project. Paratowyd datganiad cyfrifon ar gyfer 2018/19, a oedd ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd a'i gymeradwyo ar ôl archwiliad allanol, yn unol â gofynion statudol a gofynion Cod Cyfrifyddu CIPFA.*<br><br>*Mae telerau ac amodau cyllid Grant LlC / Trysorlys EM yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau gael eu cymeradwyo ar ôl proses sy'n cydymffurfio â'r llyfr gwyrdd. Wrth i fathau newydd o brosiectau gael eu hystyried neu lle y gellir ystyried bod angen dull gweithredu cywasgedig oherwydd amserlenni, dylid ystyried yr hyn sy'n achos busnes cymesur, gan ddogfennu'r dull gweithredu. Bydd angen ystyried derbynioldeb a'r ymagwedd tuag at achosion busnes cymesur, yn ogystal â risgiau neu gamau lliniaru* | 2019/20<br><br>Diweddaru Model Fforddiadwyedd ac Adroddiadau Perfformiad Chwarterol BDdPRC<br><br>Mae angen ystyried trefniadau cyfrifyddu a rheoli ariannol yn gynharach mewn perthynas â buddsoddiadau arfaethedig e.e. benthyciadau, ecwiti a chyd-fentrau ac ati. |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *dilynol fel rhan o brosesau cymeradwyo prosiectau, gydag adroddiad i'r Cabinet Rhanbarthol yn nodi'r broses i'w dilyn. Diben hyn yw sicrhau nad yw'r dull a fabwysiedir yn peri unrhyw risg i gyllid grant Trysorlys EM / LlC.*<br><br>*1. Cymeradwyo'r FfBY, nodi'r trefniadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol h.y. y Panel Buddsoddi, Proses FfBY, Cymorth gan Ymgynghorwyr Allanol, gwaith Partneriaethau Lleol ar: Sicrwydd ac adroddiad achos busnes cymesur;*<br>*2. Cyllideb Flynyddol wedi'i pharatoi a'i chymeradwyo sy'n ceisio cofnodi adnoddau ar gyfer y dyfodol;*<br>*3. Mae cyllidebu, cynllunio a rhagfynegi byrdymor a thymor canolig yn cael eu cario ymlaen. Mae angen diweddaru'r model ariannol gwreiddiol y cafodd BDdPRC ei seilio arno yn wreiddiol yn 2020/21 wrth i lefel y mathau gwirioneddol o wariant o brosiectau a llif prosiectau cymeradwy gyflymu. Mae angen i fformat yr Adroddiadau Perfformiad Chwarterol adlewyrchu'r prosiectau sy'n mynd drwy'r FfBY;*<br>*4. Mae'r Cynllun Busnes Blynyddol yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau ariannol, megis benthyciadau, ecwiti a chyd-fentrau. Mae angen parhau i ystyried trefniadau cyfrifyddu a rheoli ariannol cymhleth ar y dechrau wrth ddatblygu cynigion o'r fath yn y FfBY i sicrhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol andwyol;*<br>*5. Bydd cefnogi ymgynghorwyr allanol a rôl adolygu gan gymheiriaid a gynhelir gan Bartneriaethau Lleol yn ceisio lliniaru'r risgiau ariannu a amlinellir uchod.*<br><br>*Bydd modiwl Hyfforddiant TAW yn cael ei gyflwyno gan y Corff Atebol cyn bo hir ac fe'i hystyrir yn orfodol i'r holl staff sydd â rôl defnyddiwr SAP sy'n gysylltiedig â naill ai archebu nwyddau / gwasanaethau neu wneud taliadau neu godi biliau. SFDd i drefnu i'w gwblhau.* | Staff perthnasol SFDd i gwblhau modiwl hyfforddiant TAW gorfodol |
| **11** | **Mae gennym drefniadau effeithiol ar waith er mwyn cyflawni'r swyddogaeth swyddog monitro.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD** | | | *Mae Swyddog Monitro cynrychioliadol yn bresennol ym mhob cyfarfod Cydbwyllgor a gall gysylltu ag uwch aelodau o staff a chodi unrhyw bryderon. Mae CLG ffurfiol ar waith sy'n amlinellu'r cymorth a gaiff ei ddarparu i Gydbwyllgor y Fargen Ddinesig, ei is-bwyllgorau ac unrhyw bartneriaethau a/neu fyrddau cynghori.* | <u>2019/20</u><br><br>Yn destun adolygu parhaus |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Mae gennym drefniadau effeithiol ar waith er mwyn cyflawni'r swyddogaeth pennaeth gwasanaeth cyflogedig.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD** | | | *Nid oes swyddogaeth 'Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig' gan nad yw'r Cydbwyllgor yn gorff statudol yn ei rinwedd ei hun. Mae cyflogeion a gaiff eu secondio o Awdurdodau Lleol eraill yn ddarostyngedig i drefniadau eu priod Benaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig. Mae gan y Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig a benodwyd gyfrifoldeb cyffredinol dros faterion AD/staffio parthed Swyddfa'r Fargen Ddinesig.* | <u>2019/20</u><br><br>Yn destun adolygu parhaus |
| 13 | **Rydym yn darparu hyfforddiant sefydlu perthnasol ac mae gennym fecanweithiau ar waith i adnabod anghenion datblygu aelodau ac uwch swyddogion mewn perthynas â'u rolau strategol, a gefnogir gan hyfforddiant priodol.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>AMBR | | | *Darperir hyfforddiant sefydlu aelodau yn dilyn pob proses etholiad Llywodraeth Leol ac mae gan bob arweinydd Awdurdod Lleol y budd o'i hyfforddiant Awdurdod Lleol ei hun. Ymgymerwyd ag adolygiad blynyddol o ofynion Sefydlu a Datblygu Aelodau yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac mae rhaglen dreigl ar gyfer sefydlu Aelodau newydd a hyfforddiant ar gyfer staff newydd Swyddfa'r Fargen Ddinesig (SFDd).*<br><br>*Ymgymerwyd â hyfforddiant ar gyfer staff SFDd (ac yn ehangach) a dyrannwyd darpariaeth ar gyfer hyfforddiant yn y gyllideb. Darparwyd hyfforddiant i staff SFDd ar faterion sy'n cynnwys materion cyllideb e.e. siart cyfrifon, pwrcasu, archebu a thalu anfonebau. Fel rhan o'r cyfarfodydd monitro yn ystod y flwyddyn, mae staff y Corff Atebol yn cyfarfod â SFDd er mwyn cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion rheoli ariannol yn ogystal ag ymdrin ag unrhyw faterion sy'n digwydd dro ar ôl tro. Ni all staff gael mynediad at systemau ariannol neu sicrhau trwydded nes y cwblheir yr holl hyfforddiant angenrheidiol.*<br><br>*Mae angen rhoi ar waith drefniadau ar gyfer Adolygiadau Datblygiad a Pherfformiad Personol (DPP) ar gyfer holl staff Swyddfa'r Fargen Ddinesig (gan gynnwys ar gyfer y Cyfarwyddwr). Bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Hyfforddi SFDd a bydd ar waith pan fydd strwythur SFDd newydd wedi'i weithredu.* | <u>2019/20</u><br><br>Yn destun adolygu parhaus |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | **<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD/AMBR** | | | | |
| **14** | **Mae gennym fecanweithiau i adolygu effeithiolrwydd ein fframwaith ar gyfer adnabod a rheoli risgiau a pherfformiad ac ar gyfer dangos atebolrwydd clir**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>AMBR<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD/AMBR** | | | *Mae 'Cofrestr Risg' wedi bod ar waith ers rhan olaf 2018/19. Yn yr adroddiad i'r Cabinet a gymeradwywyd ar 18 Mai 2020, cyflwynwyd yr adolygiad 'blwyddyn allan' a gynhaliwyd gan arweinydd y Panel Gwerthuso Cenedlaethol, SQW i'r Cabinet. Defnyddiwyd hyn fel sail i ddechrau nodi nifer o risgiau a materion ehangach sy'n dod i'r amlwg ac sy'n bresennol mewn perthynas â'r amgylchedd macro-economaidd (ac sy'n cynnwys COVID-19) a hefyd i'r rhaglen ei hun. Mae'r adroddiad yn nodi, o ystyried yr amgylchedd gweithredu newydd hwn ac o ystyried yr effaith ar rai o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Adolygiad Gateway, y byddai gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu Strategaeth Rheoli Risg a Pholisi Risg ehangach, a fyddai'n cynnwys Cofrestr Risg lefel uchel a log risg lefel rhaglen. Caiff hyn ei ddwyn yn ôl yn gynhwysfawr i'r Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ni fydd y gwaith hwn yn cynnwys sylwebaeth ar newidiadau i'r amgylchedd allanol a'u heffaith ganlyniadol i Raglen BDdPRC – ond asesiad o'r prosesau amgylchedd risg, archwaeth, monitro a dwysáu.*<br><br>*Dechreuodd yr adroddiad i'r Cabinet ar 18 Mai amlinellu, ar ffurf enghreifftiol, sut y byddai'r dull newydd o ymdrin â risg yn cael ei ddatblygu a'i nodi. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at risgiau mwy uniongyrchol sy'n peryglu parhad rhaglenni a chyflenwi fel y rhai sy'n ymwneud â staffio ac adnoddau. Eir i'r afael â hyn yn awr drwy weithredoedd y Corff Atebol a chyflwynir adroddiad i'r Cabinet Rhanbarthol ar 15 Mehefin 2020.*<br><br>*Y tu hwnt i fynd i'r afael â risg drwy fframweithiau a pholisïau, mae diwylliant sy'n ymwybodol o risg ac yn barod am risg hefyd yn faes ffocws. Mae hyn yn cysylltu â'r diwylliant perfformiad a yrrir drwy'r Cynllun Busnes Blynyddol newydd; blaenoriaethau mwy penodol, gan gynnwys fframweithiau 'model rhesymeg' sy'n gyson â gofynion y Panel Gwerthuso Cenedlaethol a sicrhau bod y rhain yn llywio diwylliant cyfan o gynhyrchiant a hunanymwybyddiaeth. Caiff hyn ei lywio gan ddull risg a pherfformiad rhaglen gyfan yn ogystal â risgiau a materion mwy penodol sy'n gysylltiedig â phrosiectau unigol a rhaglenni buddsoddi.*<br><br>*O ran datblygiadau yn 19/20:*<br>• *Aeth y broses FfBY yn fyw – gan nodi'r ffordd y byddwn yn gwneud busnes a sicrhau bod Trysorlys EM yn cydymffurfio â llyfr gwyrdd;*<br>• *Sicrhau cymorth gan Bartneriaethau Lleol i ddatblygu achosion busnes cymesur – gan sicrhau bod rhwystrau a gwrthbwysau priodol ar waith;*<br>• *Mae SQW wedi cyflwyno ei adroddiad llinell sylfaen a'i adroddiad adolygiad cyntaf a'r adroddiad blwyddyn allan gyda'r ddogfen werthuso derfynol i'w chyflwyno ym mis Rhagfyr 2020;* | <u>2019/20</u><br><br>Adroddiad y Corff Atebol ar Adnoddau SFDd i'r Cabinet (15 Mehefin)<br><br>Cwblhau Adolygiad ar Strategaeth Rheoli Risg ehangach a Pholisi Risg |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • *Ceir cyfres o adroddiadau ac alinio yn y cyfnod cyn penderfyniadau ffurfiol y Cabinet Rhanbarthol sy'n sicrhau bod pob adroddiad yn mynd drwy'r Panel Buddsoddi, y Bwrdd PTER a Bwrdd y Rhaglen a lle y bo'n briodol, CSC Foundry Ltd a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol;*<br>• *Caiff perfformiad chwarterol ei fonitro yn erbyn y Cynllun Busnes Blynyddol a chyflwynir hwn i Lywodraethau Cymru a'r DU, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill;*<br>• *Mae gwaith mapio prosesau a gwelliannau i'r swyddfa gefn yn cael eu datblygu i sicrhau bod strwythurau a systemau allweddol ar waith i ddarparu 'sgaffaldau' i'r rhaglen;*<br>• *Adolygir trefniadau gyda'r Corff Atebol i sicrhau bod lefel y cymorth a ddarperir yn gymesur ag anghenion a gofynion, yn enwedig wrth i'r rhain esblygu.* | |
| **15** | **Rydym yn sicrhau y caiff trefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredd eu datblygu a'u cynnal.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD** | | | *Mae CLG ar waith gydag adran Archwilio Mewnol y Corff Atebol, sy'n ymgorffori cynllun archwilio treigl am 5 mlynedd, yn seiliedig ar asesiad risg. Wrth i weithgareddau'r Fargen Dinesig gynyddu, caiff y Cynllun Archwilio ei ddatblygu a'i ddiweddaru yn unol â hynny. Cwblhawyd ail Archwiliad Mewnol y Fargen Ddinesig ym mis Mawrth 2019, gan gynnig barn archwilio 'Effeithiol' a heb gyhoeddi unrhyw argymhellion ffurfiol. Roedd yr amcanion archwilio yn cwmpasu adroddiadau digonol ar berfformiad prosiectau, darpariaethau rheoli ariannol ar gyfer gwerthuso a chymeradwyo arian a ryddheir i brosiectau, a rheolaethau a phrosesau mewnol sy'n ymwneud â chasglu ac adfer incwm.*<br><br>*Dechreuodd Archwiliad Mewnol pellach ym mis Mawrth 2020, i ystyried prosesau llywodraethu achosion busnes, datgan a datgelu, cydymffurfio a rheoli comisiynu a chaffael a chyflogres, a datblygu materion a nodwyd drwy'r DLIB a datganiadau sicrwydd cysylltiedig. Adroddir ar y canfyddiadau ac unrhyw argymhellion cysylltiedig i'w hystyried gan y rheolwyr ym mlwyddyn ariannol 2020/21.*<br><br>*Mae'n rhaid prynu nwyddau a gwasanaethau gan ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r Corff Atebol ac mae staff Swyddfa'r Fargen Ddinesig wedi cael eu hyfforddi ac mae ganddynt fynediad at y systemau ariannol a gweinyddol perthnasol. Mae terfynau awdurdodi ariannol clir ar waith, ynghyd â neilltuo dyletswyddau. Darparodd y Corff Atebol sleidiau hyfforddi ar 'drefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredd effeithiol' ac mae'r rhain wedi'u dosbarthu i holl staff SFDd.*<br><br>*Mae cyfrifon CSC Foundry Ltd yn cael eu harchwilio'n allanol er mwyn darparu sicrwydd ac adolygiad annibynnol.*<br><br>*Mae proses "Nabod eich Cwsmer" yn cael ei datblygu gan y Corff Atebol, sydd o ddiddordeb ar adeg pan fo'r Fargen Ddinesig yn dangos defnydd cynyddol o fenthyciadau a chynhyrchion ariannol amgen. Trafodir hyn ac, os yn briodol, caiff ei ymestyn i'r Fargen Ddinesig, a fydd yn eistedd ochr yn ochr â/yn ategu'r diwydrwydd dyladwy sydd eisoes wedi'i gwblhau fel rhan o broses gymeradwyo'r FfBY. Bydd hyn yn ceisio cryfhau mesurau lliniaru risg mewn perthynas â'r cymorth ariannol a ddarperir.* | <u>2019/20</u><br><br>Gorffen yr Archwiliad Mewnol (a gychwynnwyd ym mis Mawrth 2020) ac ymateb i unrhyw Argymhellion<br><br>Ystyried y broses "Nabod eich Cwsmer" a ddatblygwyd gan y Corff Atebol |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 16 | **Mae gennym swyddogaeth graffu effeithiol ar waith.**<br><br>Sgôr 2018/19<br><br>GWYRDD/AMBR<br><br>**Sgôr 2019/20**<br><br>**GWYRDD/AMBR** | | | *Ers gweithredu trefniadau Craffu yn 2018/19, mae Cydbwyllgor Craffu BDdPRC wedi cyfarfod ar 6 achlysur hyd yma ac yn 2019//20 wedi cyfarfod ar 3 achlysur. Mae'r lleoliadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd Cydbwyllgor Craffu BDdPRC yn cylchdroi o amgylch y 10 awdurdod lleol, ac fe'u cynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf hyd yma.*<br><br>*Yn ystod 2019/20, cefnogwyd Cydbwyllgor Craffu BDdPRC gan Gyfarwyddwr Rhaglen BDdPRC a swyddogion eraill BDdPRC fel y bo'n briodol. Mae aelodau Cabinet BDdPRC hefyd wedi mynychu cyfarfodydd ac wedi cyflwyno adroddiad ar y Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd.*<br><br>*Mae'r Pwyllgor ym mhob un o'i gyfarfodydd wedi derbyn, ystyried a chraffu ar adroddiadau ar berfformiad y Cynllun Busnes ar gyfer y Fargen Ddinesig. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos sut y caiff gofynion adrodd y Fframwaith Sicrwydd eu cyflawni a hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant gwirioneddol ym mhob chwarter. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiad sy'n dangos yr ailstrwythuro a chynllun adnoddau Swyddfa'r Fargen Ddinesig.*<br><br>*Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael cyfle i graffu ar gynnydd a gwariant y prosiect Metro+ hyd yma. Mae hefyd wedi craffu ar bapur ar Ddatblygu Gweithlu Medrus a Mynd i'r Afael â Diweithdra ac wrth wneud hynny soniodd am y mentrau sgiliau. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi adolygu'r Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd Cychwynnol sy'n nodi cwmpas a sylwedd Cynllun Diwydiannol ac Economaidd cychwynnol P-RC, fel y'i datblygwyd gan y Bartneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol ar y cyd â Swyddfa'r Fargen Ddinesig. Wrth symud ymlaen, bydd Cydbwyllgor Craffu BDdPRC yn derbyn adroddiadau i'w hystyried ar y Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.*<br><br>*Mae gan y Cydbwyllgor Craffu Flaenraglen Waith sy'n cael ei hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Ei diben yw nodi eitemau i'w blaenoriaethu a'u hystyried yn y dyfodol gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae hefyd yn gyfrwng i nodi unrhyw wahoddedigion i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol i gyfrannu at drafodaethau, i nodi unrhyw ofynion hyfforddi sy'n ofynnol gan y CTCh ac i gytuno ar amserlen o gyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.*<br><br>*Mae'r Flaenraglen Waith yn hyblyg ac mae Aelodau a swyddogion yn ailedrych arni ym mhob cyfarfod. Mae ffurflen meini prawf craffu yn cyd-fynd ag adroddiad y Flaenraglen Waith a'i diben yw caniatáu i Aelodau gynnig eitemau pellach ar gyfer y Flaenraglen y gall y Pwyllgor wedyn eu hystyried ar gyfer blaenoriaethu mewn cyfarfod yn y dyfodol. Mae'r ffurflen meini prawf yn pwysleisio'r angen i ystyried* | 2019/20<br><br>Yn destun adolygu parhaus |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *materion fel effaith, risg, perfformiad, cyllideb a chanfyddiad y gymuned wrth nodi pynciau i ymchwilio iddynt a sicrhau cyfrifoldeb strategol am Graffu a bod y gwaith o fudd i'r rhai yn ardaloedd BDdPRC.*<br><br>*Yn ogystal, er mwyn cynnal cyfarfodydd ffurfiol, mae Cydbwyllgor Craffu BDdPRC wedi cynnal sesiynau hyfforddi. Fel rhan o'r rhaglen hyfforddi, mae Llywodraethu Cyhoeddus Cymru wedi cynnal sesiwn hyfforddi sy'n canolbwyntio ar Wella Canlyniadau a Rennir drwy Graffu ar y Cyd effeithiol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi darparu hyfforddiant i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ar sgiliau cadeirio effeithiol.*<br><br>*Mae'r cyfrifoldeb am gydgysylltu Cydbwyllgor Craffu BDdPRC bellach wedi'i drosglwyddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf o fis Mawrth 2020 gan fod tymor dwy flynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cydlynu gweithgareddau'r Pwyllgor wedi dod i ben.*<br><br>*Dylid nodi, fel y 'corff sy'n cael ei graffu', nad rôl Swyddfa'r Fargen Dinas yw gweithredu'r broses, y fframwaith a'r rhaglen waith ar gyfer Craffu ar y Cyd. Mater i'r Cydbwyllgor Craffu ei hun yw hwn. Bydd Swyddfa'r Fargen Ddinesig yn darparu unrhyw wybodaeth y gofynnir iddi amdani er mwyn caniatáu i'r prosesau y cytunwyd arnynt gael eu cwblhau a dod â dyfarniad priodol ar effeithiolrwydd i ben.* | |
| **17** | **Mae ein trefniadau sicrwydd archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac arfer gorau perthnasol.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD** | | | *Mae CLG ar waith gydag adran Archwilio Mewnol y Corff Atebol, sy'n ymgorffori cynllun archwilio treigl 5 mlynedd, yn seiliedig ar asesiad risg. Wrth i weithgareddau'r Fargen Ddinesig gynyddu, caiff y Cynllun Archwilio ei ddatblygu a'i ddiweddaru yn unol â hynny fel rhan o'r broses CLG flynyddol.*<br><br>*Mae'r Rheolwr Archwilio wedi adrodd bod yr Adran Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n barhaus â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac arfer gorau perthnasol drwy brosesau ar gyfer sicrwydd parhaus ac adolygiad mewnol blynyddol. Mae'n ofynnol i gydymffurfiaeth gael ei hardystio gan adolygiad allanol 5 mlynedd gan gymheiriaid, a gwblhawyd gan RhCT ym mis Mawrth 2018.*<br><br>*Corff atebol a SFDd i adolygu digonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i gynnal archwiliadau mewnol blynyddol wrth i'r biblinell FfBY aeddfedu. Bydd angen i'r adolygiad hwn ystyried cwmpas Cynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru er mwyn sicrhau bod y rhain yn gweithio mewn modd ategol.* | <u>2019/20</u><br><br>Adolygu digonolrwydd Adnoddau Archwilio Mewnol |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **18** | **Mae gennym drefniadau ar waith er mwyn cyflawni swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD** | | | *Nid oes unrhyw ofyniad statudol i Gyd-bwyllgor fod â'i bwyllgor archwilio ei hun. Y Cabinet Rhanbarthol yw'r corff a gafodd y dasg o lywodraethu ac felly mae 'swyddogaethau craidd' pwyllgor archwilio yn cael eu cyflawni trwy gyfuniad o rolau a chyfrifoldebau.*<br><br>*Mae'r Cabinet Rhanbarthol, drwy ei Swyddog a151 penodedig, yn cyflawni rheolaeth ariannol a rheolaethau mewnol effeithiol ac yn paratoi ei gyfrifon a'u cyflwyno i'w harchwilio. Darperir sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a hygrededd y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu trwy CLG gydag adran Archwilio Mewnol y Corff Atebol a thrwy'r cynllun archwilio allanol blynyddol.*<br><br>*Ni chynigir rhagor o ddiweddariadau neu gamau gweithredu ar hyn o bryd, ond cedwir 'briff gwylio' ar y mater hwn, yn enwedig wrth i lefel gweithgarwch y Fargen Ddinesig gynyddu. Yn ogystal â'r pwyntiau a amlinellir uchod, cefnogir y casgliad hwn ymhellach wrth ystyried:*<br><br>*1. Adroddiadau Perfformiad Chwarterol a baratoir ac a ystyrir gan y Cabinet Rhanbarthol, a anfonir wedyn at Gyllidwyr (Llywodraethau Cymru a'r DU), Swyddfa Archwilio Cymru a SQW (Aseswyr Adolygiad Gateway);*<br>*2. Ymgymerwyd ag archwiliad allanol llawn o gyfrifon y Cydbwyllgor a rhai ei is-gwmni;*<br>*3. Mae trefniadau Craffu ar y Cyd ar waith ac yn gweithredu (gweler Datganiad 16).* | <u>2019/20</u><br><br>Yn destun adolygu parhaus |
| **19** | **Rydym yn darparu cefnogaeth, gwybodaeth ac ymatebion amserol i archwilwyr allanol ac yn ystyried darganfyddiadau ac argymhellion archwiliadau yn briodol.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>** | | | *Cedwir perthynas ddwyffordd agored gydag Archwilio Cymru, ac mae cyfarfodydd diweddaru rheolaidd yn digwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae Archwilio Cymru wedi sicrhau bod Rheolwr Technolegol ar gael i arsylwi gwaith Is-grŵp Technegol y Fargen Ddinesig ac i helpu gyda datrys problemau wrth iddynt godi.*<br><br>*Parthed cyfrifon 2018/19, cwblhawyd archwiliad llawn sy'n cydymffurfio ag ISA260 ac ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol a barhaodd heb eu cywiro. Mae adroddiad yr archwilydd allanol ar Ddatganiad Cyfrifon 2018/19 yn cydnabod y darparwyd cymorth, gwybodaeth ac ymatebion amserol i'w archwilwyr, fel rhan o'r archwiliad. Cafodd y Canfyddiadau a'r Argymhellion sy'n perthyn i archwiliad allanol 2018/19 naill ai eu gweithredu'n llawn neu maent yn y broses o gael eu gweithredu.*<br><br>*Cynllun Archwilio 2020 a ystyriwyd gan y Cabinet Rhanbarthol ym mis Mai 2020, yn amlinellu'r dull o archwilio'r cyfrifon mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2019/20 a'r archwiliad o berfformiad ar gyfer 2020/21.*<br><br>*Darparwyd cymorth a gwybodaeth amserol ac ymatebion i Archwilio Mewnol mewn perthynas ag unrhyw argymhellion a cheisiadau am wybodaeth.* | <u>2019/20</u><br><br>Yn destun adolygu parhaus |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | **GWYRDD** | | | | |
| **20** | **Rydym yn ymgorffori trefniadau llywodraethu da yn ein partneriaethau ac mewn trefniadau cydweithio eraill.**<br><br><u>Sgôr 2018/19</u><br><br>GWYRDD/AMBR<br><br>**<u>Sgôr 2019/20</u>**<br><br>**GWYRDD** | | | *Mae trefniadau llywodraethu'r Cydbwyllgor wedi'u rhestru yn y Cytundeb Cydweithio a chawsant eu cymeradwyo gan bob un o'r deg Awdurdod partner. Yn ddibynnol ar natur y partneriaethau a threfniadau cydweithio eraill, mae gofyn am strwythurau llywodraethu gwahanol, ond yn bennaf mae eu Cylch Gorchwyl wedi'u cytuno gan y Cabinet.*<br><br>*Trefniadau gweithio gwell, cryfhau partneriaethau a chysoni llif a threfn y rhain er mwyn adlewyrchu natur busnes yn well a sut y mae angen ei wneud, sydd wedi bod yn nodweddion allweddol o'n gwaith yn 19/20. Mae hyn eto'n adlewyrchu dyfodiad rhai pwyntiau aeddfedu megis gweithredu'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd, ail-lunio Bwrdd y Rhaglen a sefydlu a gweithredu'r Panel Buddsoddi.*<br><br>*O dan y FfBY, mae'r canlynol bellach ar waith a dylid nodi bod y broses hon yn gweithio mewn trefn i sicrhau'r llinellau cyfathrebu gorau posibl a bod cyngor ac argymhellion yn cael eu llunio a'u profi ac yr ymgynghorir arnynt, cyn gwneud penderfyniadau gan y cabinet:*<br><br>• *Sefydlwyd Panel Buddsoddi gyda 5 cynrychiolydd sector preifat o PTER a 5 cynrychiolydd sector cyhoeddus o Fwrdd y Rhaglen. Mae gan hwn gylch gorchwyl clir, model gweithredu cryf ac yn 19/20 o ddechrau mis Hydref, mae wedi cyfarfod bob mis, gydag ymgysylltu a chyfranogi parhaus yn parhau ar faterion allweddol fel diwydrwydd dyladwy prosiectau;*<br><br>• *Mae PTER yn parhau i gyflawni ei rôl mewn meddwl ac arweinyddiaeth strategol – llunio polisïau, strategaeth economaidd, cyhoeddiadau, data ac ymchwil. Yn ogystal, mae ganddi rôl o ran ystyried argymhellion a chyngor y Panel Buddsoddi ynghylch cynigion buddsoddi;*<br><br>• *Mae Bwrdd y Rhaglen bellach wedi'i hail-bwrpasu gyda chynrychiolaeth y Prif Swyddog Gweithredol. Mae Bwrdd y Rhaglen yn chwarae rhan strategol yn y gwaith o fonitro materion ar lefel rhaglen ac, fel PTER ac oherwydd ei fod yn 'ffitio' gyda'r Panel Buddsoddi, hefyd yn ystyried cyngor ac argymhellion y Panel Buddsoddi;*<br>• *Mae'r Cyngor Busnes Rhanbarthol wedi bod yn destun proses adolygu gynhwysfawr – a dechreuodd y comisiynu ar ei gyfer yn 2019/20. Mae hyn yn bwysig o ran dod o hyd i ffit a chyfraniad newydd y grŵp, yng ngoleuni'r FfBY;*<br><br>• *Mae trefniadau'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'u cryfhau yn unol â'r cynnydd ar brosiectau a rhaglenni allweddol – fel Metro+ a'r Metro Canolog. Y tu hwnt i ystyried cynigion* | <u>2019/20</u><br><br>Cwblhau'r Adolygiad o CBRh a gweithredu Argymhellion y cytunwyd arnynt |

| | Datganiad Sicrwydd | | | Rheolaethau sydd Ar Waith a Dogfennaeth Ategol (Ymateb Cyfunol) | Camau Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *buddsoddi a chael cyngor gan y Panel Buddsoddi – monitro rhaglenni, sefydlu cysylltiadau â Trafnidiaeth Cymru a gweithio ar draws agweddau'r Metro a'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach ar y Fargen Ddinesig;*<br><br>• *Mae Bwrdd CSC Foundry yn parhau i gyflawni ei rôl mewn perthynas â chyflawni'r prosiect a rôl y landlord mewn perthynas â'r Cytundeb Datblygu ar gyfer Prydlesu. Yn 2019/20, mae'r holl drefniadau monitro a gwerthuso wedi'u cyflwyno yn unol â'r model rhesymeg ar gyfer y Panel Gwerthuso Cenedlaethol, gan sicrhau bod yr holl adroddiadau ar berfformiad yn gyson ac yn unol â gofynion Gateway;*<br><br>• *Cabinet – mae'n parhau i gyfarfod yn unol â'r amserlen gynllunio ac mae hefyd yn cynnal sesiynau briffio rheolaidd, ac ar yr adeg honno, caiff yr holl wybodaeth, cyngor ac argymhellion o'r uchod eu distyllu a'u rhannu. Cynhaliodd y Cabinet ddiwrnod cynllunio hefyd yn 2019/20, cyn cynhyrchu'r Cynllun Busnes Blynyddol. Mae rôl y Cabinet yn esblygu a'i swyddogaeth glir yw llywio'r llong a darparu arweinyddiaeth strategol a gwasgaredig, drwy sicrhau bod ei holl is-grwpiau a phartneriaethau ategol yn chwarae eu rhan lawn yn y gwaith o gyflawni.*<br><br>*O ran partneriaethau a digwyddiadau allanol, mae P-RC wedi cyfrannu at lu o ddigwyddiadau, partneriaethau, grwpiau, datblygiadau polisi a mentrau strategol yn 2019/20. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru, Grwpiau Cynghori Gweinidogol ar Dasglu'r Cymoedd a'r Economi Sylfaenol, melinau trafod polisi fel NESTA, IPPW a Beth sy'n Gweithio Cymru yn ogystal â chynrychiolaeth ar lefel llywodraeth y DU ac UKRI. Bydd P-RC yn parhau i ymgysylltu'n helaeth â fframwaith rhanbarthol datblygol Llywodraeth Cymru ac yn enwedig â Phrif Swyddog Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.*<br><br>*Mae trefniadau'n bodoli gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ogystal â SQW (ymgynghorwyr penodedig Trysorlys EM sy'n arwain y gwaith ar yr Adolygiad Gateway). Mae hyn yn gofyn am gyfranogiad mewn grwpiau llywio cenedlaethol ac ar lefel y DU a fforymau polisi.*<br><br>*Mae llywodraethu da yn gofyn i sianeli cyfathrebu clir gael eu sefydlu gyda phartneriaethau a threfniadau cydweithio eraill a chydnabyddir bod angen rhagor o waith i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn ac i ymateb i unrhyw adborth a dderbynnir. Yn 19/20 penodwyd gweithiwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu proffesiynol yn ogystal â threfniadau cytundebol newydd ar gyfer presenoldeb porth y Fargen Ddinas o fewn Newyddion Busnes Cymru. Ynghyd â gwelliannau i'r strategaeth ymgysylltu gyffredinol, y newidiadau i'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Bu cynnydd x3 o ran cyrhaeddiad a theimladau.* | |

## Cynllun gweithredu DLIB 2019/20

Mae tabl 1 isod yn amlinellu'r camau gweithredu a gymerwyd fel rhan o Gynllun Gweithredu 2019/20, a nodir swyddog cyfrifol a chyfnod adolygu parthed pob cam gweithredu. Caiff adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Cabinet Rhanbarthol eu defnyddio fel y mecanwaith ar gyfer diweddariadau cynnydd ac adolygu yn erbyn y Dyddiad Targed.

Tabl 1. Cynllun gweithredu DLIB 2019/20

| Rhif Cam Gweithredu | Datganiad Sicrwydd | Cam Gweithredu a Awgrymir | Swyddog(ion) Cyfrifol | Targed Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| 1 a 2 | Mae gennym ac rydym yn cyfathrebu codau ymddygiad yn effeithiol er mwyn diffinio safonau ymddygiad ar gyfer aelodau a staff, ac mae gennym bolisïau ar gyfer ymdrin â chwythu'r chwiban a gwrthdaro buddiannau (Datganiad 1). | 1. Adolygu a diweddaru Datganiadau Buddiannau yn barhaus.<br><br>2. Datblygu Polisi Buddsoddi Moesegol. | Swyddfa'r Fargen Ddinesig<br><br>Swyddfa'r Fargen Ddinesig | I'w gwblhau erbyn Ch 2.<br><br>I'w gwblhau erbyn Ch 3. |
| 3 | Rydym yn sicrhau:<br>• Cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau perthnasol;<br>• Cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau mewnol;<br>• bod gwariant yn gyfreithlon (Datganiad 2). | 3. Grŵp Gorchwyl a Gorffen SFDd, gan gynnwys recriwtio Rheolwr Busnes a Llywodraethu a Chymorth Gweinyddol | Swyddfa'r Fargen Ddinesig | I'w gwblhau erbyn Ch 3. |
| 4 | Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a gweithredu er budd y cyhoedd (Datganiad 3). | 4. Adolygiad parhaus o gyfarfodydd a phapurau ATRh a Chraffu ar y Cyd ar gael i'r cyhoedd drwy wefan P-RC | Swyddfa'r Fargen Ddinesig | I'w gwblhau erbyn Ch 2. |
| 5 | Rydym wedi sefydlu sianeli cyfathrebu clir gyda phob rhan o'r gymuned a chyda rhanddeiliaid eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac annog ymgynghori agored (Datganiad 4). | 5. Adolygiad o wefan BDdPRC a'i chynnwys yn 2020/21 | Swyddfa'r Fargen Ddinesig | I'w gwblhau erbyn Ch 3. |
| 6 | Rydym yn mesur perfformiad gwasanaethau a phrosiectau perthynol ac yn sicrhau y cânt eu darparu yn unol â chanlyniadau a ddiffiniwyd a'u bod yn cynrychioli defnydd gorau o adnoddau a gwerth am arian (Datganiad 8). | 6. Datblygu mecanweithiau Gwerthuso ac Adrodd priodol ar gyfer Prosiectau sydd ar y Cam Cyflawni | Swyddfa'r Fargen Ddinesig a Chorff Atebol (Cyllid) | I'w gwblhau erbyn Ch 2. |

| Rhif Cam Gweithredu | Datganiad Sicrwydd | Cam Gweithredu a Awgrymir | Swyddog(ion) Cyfrifol | Targed Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| 7 - 9 | Mae ein trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn cydymffurfio â phob gofyniad deddfwriaethol ac arfer gorau perthnasol (Datganiad 10). | 7. Diweddaru Model Fforddiadwyedd ac Adroddiadau Perfformiad Chwarterol BDdPRC<br><br>8. Mae angen ystyried trefniadau cyfrifyddu a rheoli ariannol yn gynharach mewn perthynas â buddsoddiadau arfaethedig e.e. benthyciadau, ecwiti a chyd-fentrau ac ati.<br><br>9. Staff perthnasol SFDd i gwblhau modiwl hyfforddiant TAW gorfodol | Corff Atebol (Cyllid)<br><br>Swyddfa'r Fargen Ddinesig a Chorff Atebol (Cyllid)<br><br>Swyddfa'r Fargen Ddinesig a Chorff Atebol (Cyllid) | I'w gwblhau erbyn Ch 2.<br><br>I'w gwblhau erbyn Ch 2.<br><br>I'w gwblhau erbyn Ch 4. |
| 10 a 11 | Mae gennym fecanweithiau i adolygu effeithiolrwydd ein fframwaith ar gyfer adnabod a rheoli risgiau a pherfformiad ac ar gyfer dangos atebolrwydd clir (Datganiad 14). | 10. Adroddiad y Corff Atebol ar Adnoddau SFDd i'r Cabinet (15 Mehefin)<br><br>11. Cwblhau Adolygiad ar Strategaeth Rheoli Risg ehangach a Pholisi Risg | Corff Atebol<br><br>Swyddfa'r Fargen Ddinesig a Chorff Atebol | I'w gwblhau erbyn Ch 1.<br><br>I'w gwblhau erbyn Ch 2. |
| 12 ac 13 | Rydym yn sicrhau y caiff trefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredd eu datblygu a'u cynnal (Datganiad 15). | 12. Gorffen yr Archwiliad Mewnol (a gychwynnwyd ym mis Mawrth 2020) ac ymateb i unrhyw Argymhellion<br><br>13. Ystyried y broses "Nabod eich Cwsmer" a ddatblygwyd gan y Corff Atebol | Swyddfa'r Fargen Ddinesig a Chorff Atebol<br><br>Swyddfa'r Fargen Ddinesig a Chorff Atebol | I'w gwblhau erbyn Ch 2.<br><br>I'w gwblhau erbyn Ch 4. |
| 14 | Mae ein trefniadau sicrwydd archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac arfer gorau perthnasol (Datganiad 17). | 14. Adolygu digonolrwydd Adnoddau Archwilio Mewnol | Swyddfa'r Fargen Ddinesig a Chorff Atebol | I'w gwblhau erbyn Ch 2. |
| 15 | Rydym yn ymgorffori trefniadau llywodraethu da yn ein partneriaethau ac mewn trefniadau cydweithio eraill (Datganiad 20). | 15. Cwblhau'r Adolygiad o CBRh a gweithredu Argymhellion y cytunwyd arnynt | Swyddfa'r Fargen Ddinesig | I'w gwblhau erbyn Ch 2. |

**Teitl yr Archwiliad: Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**
**Sicrwydd Archwilio: Effeithiol gyda lle i wella**

| CYF | ARGYMHELLION | SGÔR RISG | YMATEB Y TÎM RHEOLI | SWYDDOG CYFRIFOL | DYDDIAD GWEITHREDU (dd/mm/bbbb) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, dylid cynnwys yr asesiad Sgôr Sifftiau yn yr Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes. | Coch / Ambr | Cytuno. Nodwyd ac fe'i gweithredir. | Prif Swyddog Gweithredu / Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd | 30/11/2020 |
| 2 | Ar gyfer y sampl dan sylw, ac at ddibenion ôl-sicrwydd, dylai'r rheolwyr anfon tystiolaeth Archwilio Mewnol o gofnodion sgoriau sifftiau ar gyfer Axione (Cysylltiad Ffeibr Llawn i'r Adeilad) ac Ystadau Garrison Barclay (Ymyl Caerdydd - Parc Arloesi Gwyddorau Bywyd) | Coch / Ambr | Cytuno. Nodwyd - bydd sgorio'n cael ei anfon at y tîm Archwilio Mewnol i gael sicrwydd ôl-archwilio. | Prif Swyddog Gweithredu / Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd | 31/10/2020 |
| 3 | Dylid ystyried defnyddio rhestr wirio prosiect, offeryn defnyddiol i gefnogi cronfa ddata tracio'r FfBY. Mae'n atgoffa'r defnyddiwr o'r hyn y mae angen ei wneud ac yn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn cydymffurfio wrth i'r eitemau gael eu ticio ar y rhestr mewn cofnod canolog. | Ambr / Gwyrdd | Cytuno. Mae rhestr wirio'r prosiect wedi'i chwblhau'n rhannol ac mae wedi bod yn gam dysgu yn y flwyddyn gyntaf o weithredu a bydd yn rhan o waith adolygu'r FfBY. | Cymorth i fusnesau a phartneriaethau | 31/01/2020 |
| 4 | Dylid monitro'n barhaus yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod datganiadau buddiannau a fynegir mewn cyfarfodydd yn cael eu cynnwys yn ffurflenni Datgan Buddiannau Personol y Swyddog sefydlog a'r wefan. | Coch / Ambr | Cytuno. Mae cofnodion wedi'u diweddaru a bydd gwiriadau terfynol yn cael eu gwneud i sicrhau cysondeb ar draws cyfarfodydd a datganiadau personol. | Cymorth i fusnesau a phartneriaethau | 31/01/2020 |
| 5 | Dylai'r rheolwyr ddiffinio a chyfleu rolau a chyfrifoldebau'n glir a'r pwysigrwydd i ddiweddaru Amserlen a Thraciwr Contractau. | Ambr / Gwyrdd | Cytuno. Mae hyn yn mynd rhagddo. | Cymorth i fusnesau a phartneriaethau | 31/01/2020 |
| 6 | Er mwyn rheoli a monitro contractau'n effeithiol, mae'n bwysig bod y wybodaeth hon yn cael ei phoblogi, ei chynnal a'i diweddaru. | Coch / Ambr | Cytuno. Rhoddwyd cyfrifoldeb newydd i'r Pennaeth Seilwaith i sicrhau y caiff ei ddiweddaru a'i bod yn cydymffurfio. | Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd / Pennaeth Seilwaith | 31/12/2020 |
| 7 | Er bod y rhan fwyaf o brosiectau yn eu camau cynnar, er mwyn lleihau lefel y contractau nad ydynt wedi'u Cymeradwyo ar gyfer Caffael, tendrau un ffynhonnell a chontractau sydd wedi dod i ben ar gyfer y dyfodol, bydd defnyddio Amserlen a Thraciwr Contractau ar y cyd ag ymgysylltu'n gynnar â'r Rheolwr Categorïau Strategol ar gyfer gweithgareddau caffael disgwyliedig yn cynyddu cydymffurfiaeth â'r CSOPR ar gyfer y prosiectau hynny sydd ar y gweill wrth i bortffolio'r prosiect ehangu. | Coch / Ambr | Cytuno. Rhoddwyd cyfrifoldeb newydd i'r Pennaeth Seilwaith i sicrhau y caiff ei ddiweddaru a'i bod yn cydymffurfio. | Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd / Pennaeth Seilwaith | 31/12/2020 |
| 8 | Ar gyfer y sampl a ddewiswyd, ac at ddibenion ôl-sicrwydd, rhaid i'r rheolwyr anfon tystiolaeth Archwilio Mewnol o ddogfennau cyn tendro'r contract ar gyfer NESTA ac Astudiaeth Diwydrwydd Dyladwy Dechnegol Imperial Park. | Coch / Ambr | Cytuno. Bydd yn cael ei ddarparu. | Pennaeth Seilwaith / Cyfarwyddwr | 31/10/2020 |
| 9 | Dylai'r rheolwyr ystyried lefel yr hyfforddiant comisiynu a chaffael gofynnol ar gyfer staff sydd ei angen yn Swyddfa'r Fargen Ddinesig. | Gwyrdd | Cytuno. Mae hyn yn mynd rhagddo. | Cyfarwyddwr | 31/12/2020 |
| 10 | Yn unol ag arfer gorau, dylai'r rheolwyr ystyried sefydlu trefniant ar gyfer cynnal adolygiad annibynnol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn i'r Cabinet Rhanbarthol ei gymeradwyo. Gallai'r Pwyllgor Craffu neu swyddogaeth ar wahân gyflawni hyn. | Ambr / Gwyrdd | Cytuno. Awgrym da a bydd yn cael ei weithredu - ond yn dibynnu ar farn a blaenoriaethau rhaglenni gwaith y Pwyllgor Craffu | Cyfarwyddwr / Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd | 31/07/2020 |

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
| --- | --- |
| **Effeithiol** | • Mae’r rheolaethau a werthuswyd yn ddigonol ac yn briodol<br>• Mae’r amgylchedd rheoli’n ymddangos yn ddigon cadarn i roi sicrwydd rhesymol bod pob perygl lefel uchel yn cael ei reoli’n ddigonol<br>• Dim canfyddiadau wedi'u nodi (neu nifer fach o argymhellion risg isel) |
| **Effeithiol gyda lle i wella** | • Nodwyd ychydig o wendidau rheoli a/neu gyfleoedd i wella<br>• Mae’r rheolaethau a werthuswyd fel arall yn ddigonol ac yn briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y risgiau'n cael eu rheoli'n ddigonol |
| **Annigonol ac angen gwelliant sylweddol** | • Nid yw rhai o'r risgiau lefel uchel wedi'u rheoli'n ddigonol<br>• Nodwyd llawer o wendidau rheoli penodol<br>• Er nad oes bygythiad uniongyrchol i gadernid a diogelwch, mae angen gwella’r amgylchedd rheoli gan nad yw’n rhoi sicrwydd rhesymol bod yr holl risgiau lefel uchel yn cael eu rheoli’n ddigonol<br>• Efallai bod risg o dwyll neu wendidau diogelwch |
| **Anfoddhaol** | • Nid yw’r amgylchedd rheoli’n ddigonol nac o safon dda<br>• Ystyrir nad yw'r amgylchedd rheoli'n gadarn<br>• Gallai diffyg sylw arwain at golledion sylweddol |

| Statws | Meini Prawf |
| --- | --- |
| Uchel / Coch | Mae hwn yn fater â blaenoriaeth uchel ac mae angen sylw brys. Mae hwn yn fater rheoli mewnol neu reoli risg difrifol, ac os nad yw'n cael ei leddfu gallai (yn eitha' sicr) arwain at:<br><br>• Golledion sylweddol, o bosibl ar y cyd â gwendidau eraill yn y fframwaith rheoli neu'r endid sefydliadol neu'r broses sy'n cael ei harchwilio<br>• Mynd yn groes i strategaethau, polisïau neu werthoedd y Cyngor<br>• Niwed difrifol o ran enw da<br>• Effaith andwyol neu reolaethol sylweddol, megis colli trwyddedau gweithredu neu ddirwyon materol<br><br>Dyma enghreifftiau:<br>• Nid oes polisi / gweithdrefn yn bodoli ar gyfer prosesau sylweddol y Cyngor<br>• Nid oes rheolaethau ataliol, darganfod na lleddfu ar waith<br>• Mae enw da'r Cyngor neu statws ariannol mewn perygl<br>• Twyll neu ddwyn wedi'i ddarganfod<br>• Nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau |
| Canolig / Coch Ambr | Mae hwn yn fater â blaenoriaeth ganolig ac mae **camau rheoli amserol yn angenrheidiol**. Mae hwn yn fater rheoli mewnol neu reoli risg a allai arwain at:<br><br>• Golledion ariannol<br>• Colli rheolaethau o fewn yr endid sefydliadol neu'r broses sy'n cael ei harchwilio<br>• Niwed i enw da<br>• Effaith andwyol reoleiddiol, megis sancsiynau cyhoeddus neu ddirwyon anfaterol<br><br>Dyma enghreifftiau:<br><br>• Mae polisi'n bodoli ond nid yw'n cael ei weithredu'n gyson<br>• Nid oes rheolaethau ataliol a darganfod yn bodoli, ond mae rheolaethau lleddfu'n bresennol<br>• Mae cydymffurfiaeth y Cyngor â deddfau a rheoliadau'n gofyn am werthuso ac adolygu ychwanegol<br>• Mae posibilrwydd o weithgareddau amhriodol |
| Canolig / Ambr Gwyrdd | Mae hwn yn fater â blaenoriaeth isel ac **mae sylw rheolaeth arferol yn deilwng**. Mae hwn yn fater rheoli mewnol neu reoli risg, byddai'r datrysiad o bosibl yn arwain at welliant yn ansawdd a/neu effeithlonrwydd y sefydliad neu'r broses sy'n cael ei harchwilio.<br><br>Dyma enghreifftiau:<br>• Mae polisi'n bodoli, ond ni lynwyd ato ar sail eithriadau<br>• Nid yw rheolaethau ataliol yn bodoli, ond mae rheolaethau darganfod a lleddfu'n bodoli<br>• Mae mân bosibilrwydd o weithgareddau amhriodol |
| Isel / Gwyrdd | Arfer Gorau |

## CYD-DESTUN YR ADRODDIAD

Paratowyd yr adroddiad hwn at ddefnydd mewnol y Cyngor ac fe'i paratoir mewn perthynas ag archwilio mewnol, dan y gofynion fel y'u nodir yn Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor sy'n seiliedig ar egwyddorion arfer gorau fel y'u nodir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC).

Paratoir adroddiadau gan staff yr Adran Archwilio Mewnol sydd wedi'u lleoli o fewn Adnoddau, ac maent yn hysbysu Swyddog Adran 151 ac uwch reolwyr ar draws y Cyngor ar drefniadau llywodraethu, yn bennaf o ran rheoli risgiau, cywirdeb yr amgylchedd rheoli a'r defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.